

Y drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU

Gair am y ddogfen hon

Dyma'r drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU. Mae'n nodi'r amodau rheoleiddio mae Ofcom yn ystyried sy'n briodol er mwyn mynnu bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus; sef sicrhau darpariaeth sy'n cynnwys allbwn a gwasanaethau unigryw; a sicrhau bod holl gynulleidfaoedd y BBC yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da.

Mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â'r amodau rheoleiddio yn y drwydded hon. Gall Ofcom gymryd camau gorfodi mewn achos o ddiffyg cydymffurfio.

Mae dogfen ar wahân ar gael ar gyfer cynulleidfaoedd ym mhob gwlad yn y Deyrnas Unedig, sy'n nodi'r amodau rheoleiddio perthnasol i Wasanaethau'r BBC yn y wlad honno'n benodol.

Cynnwys

Adran

1 Y Drwydded

Tudalen

1

Amserlenni

1 Amodau rheoleiddio
2 Diffiniadau a dehongliadau
3 Gwasanaethau Cyhoeddus y DU

Tudalen

11
33
36

Adran 1

Y Drwydded

- 1.1 Dyma'r drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU (y "Drwydded"). Drwy osod y Drwydded mae Ofcom wedi cyflawni ei swyddogaethau o dan y Siarter Brenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (y "Siarter") a'r Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a'r BBC (y "Cytundeb"), yn unol ag adran 198 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.¹
- 1.2 Yn benodol, mae swyddogaethau Ofcom yn cynnwys² gosod trwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y DU sy'n cynnwys amodau rheoleiddio mae Ofcom yn ystyried sy'n briodol er mwyn mynnu bod y BBC yn gwneud y canlynol:
- 1.2.1 cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus;
- 1.2.2 sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau unigryw; a
- 1.2.3 sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da.
- 1.3 Ar ben hynny, mae Ofcom wedi gosod y Drwydded yn unol â'r gofyniad³ i orfodi amodau penodol⁴ sy'n ymwneud â'r canlynol:
- bod yn unigryw (yn benodol, yn y drwydded weithredu gyntaf mae'n rhaid i ni geisio gwella'r gofynion a osodwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC ar y BBC drwyddo draw er mwyn sicrhau bod allbwn a gwasanaethau unigryw yn cael eu darparu);
 - deunyddiau ar-lein trydydd partion;
 - newyddion a materion cyfoes (oriau ac amserlennu);
 - cwotâu ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol; a
 - chwotâu ar gyfer rhaglenni a chreu rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau.
- 1.4 Yn y Drwydded, mae Ofcom wedi gorfodi Amodau Rheoleiddio pellach mae'n ystyried sy'n briodol er mwyn mynnu bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus.⁵
- 1.5 Ar ben hynny, mae Ofcom wedi gorfodi Amodau rheoleiddio pellach y Drwydded mae'n ystyried sy'n briodol er mwyn mynnu bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da⁶.

¹ Mae Adran 198 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn darparu ar gyfer swyddogaethau Ofcom mewn perthynas â'r BBC.

² Erthygl 46(3) o'r Siarter.

³ Cymal 13(2) y Cytundeb.

⁴ "Amodau rheoleiddio'r drwydded weithredu" a nodir yn Atodlen 2 o'r Cytundeb.

⁵ Cymal 13(3) y Cytundeb.

⁶ Cymal 13(4) y Cytundeb.

- 1.6 Mae'r Drwydded yn berthnasol i bob un o Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU fel y nodir yn y Cytundeb⁷ ac mae'n berthnasol i bob un o wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Mae Ofcom wedi cynhyrchu dogfen ar wahân ar gyfer cynulleidfaoedd ym mhob gwlad yn y Deyrnas Unedig, sy'n nodi'r gofynion rheoleiddio penodol i'r wlad berthnasol, i'w darllen ynghyd â'r Drwydded hon.
- 1.7 Yn unol â darpariaethau'r Siarter a'r Cytundeb, mae Bwrdd y BBC yn gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus, yn ogystal â gosod y cyfeiriad strategol a'r cylch gwaith creadigol er mwyn gwneud hynny.⁸ Y Bwrdd, yn hytrach nag Ofcom, sy'n gyfrifol am osod cyllidebau a strategaethau ar gyfer rhaglenni a gwasanaethau'r BBC. Mae'n rhaid i'r BBC gyhoeddi cynllun blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, cyn y cyfnod y mae'n berthnasol iddo, ac mae'n rhaid iddo gynnwys (ymysg pethau eraill) y cylch gwaith creadigol ar gyfer y flwyddyn honno, y cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn honno, a'r ddarpariaeth ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig.⁹
- 1.8 Mae Ofcom wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn gosod y Drwydded hon¹⁰, a bydd Ofcom yn gosod y Drwydded yn unol â darpariaethau perthnasol y Fframwaith Gweithredu.¹¹
- 1.9 Efallai y bydd Ofcom yn diwygio'r Drwydded hon ac mae'n ystyried y bydd yn debygol y bydd yn gwneud hynny'n rheolaidd dros gyfnod y Siarter. Er enghraifft, efallai y bydd Ofcom yn ei hystyried yn briodol diwygio'r Drwydded ar ôl pwysu a mesur tystiolaeth am berfformiad y BBC mewn meysydd penodol, neu ar ôl ystyried newidiadau mewn arferion gwyllo neu wrando cynulleidfaoedd, neu newidiadau mewn technoleg: er enghraifft, rhagor o ddefnydd ar draws llwyfannau gwahanol. Cyn diwygio'r Drwydded, bydd Ofcom yn ymgynghori â'r BBC. Bydd Ofcom hefyd yn ymgynghori ag unrhyw un arall mae'n ystyried sy'n briodol mewn perthynas â natur a defnyddioldeb y diwygiad arfaethedig, yn unol â darpariaethau perthnasol y Fframwaith Gweithredu.
- 1.10 Mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio ag Amodau Rheoleiddio'r Drwydded mewn perthynas â darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU.¹² Mae'n rhaid i Ofcom fynnu bod y BBC yn cydymffurfio ag Amodau Rheoleiddio'r Drwydded¹³ ac, yn benodol, efallai y bydd Ofcom yn ystyried cwynion mae'n eu derbyn gan unrhyw unigolyn ac yn cynnal ymchwiliadau mae'n ystyried sy'n briodol.¹⁴ Hefyd, mae'n rhaid i Ofcom sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â rhai gofynion rheoleiddio¹⁵ sy'n berthnasol i'r BBC yn uniongyrchol drwy'r Siarter a'r

⁷ Mae rhestr o Wasanaethau Cyhoeddus y DU wedi'u nodi yn Atodlen 4 y Drwydded hon.

⁸ Erthygl 20(3)(a) a (b) o'r Siarter.

⁹ Erthygl 36 y Siarter.

¹⁰ Mae Cymal 13(5) o'r Cytundeb yn nodi bod rhaid i Ofcom, cyn gosod trwydded weithredu, ymgynghori â'r BBC ac unrhyw un mae Ofcom yn ystyried sy'n briodol.

¹¹ Mae Erthygl 46(3) o'r Siarter yn nodi bod rhaid i Ofcom bennu trwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn unol â'r Fframwaith Gweithredu.

¹² Cymal 7(2) y Cytundeb.

¹³ Mae'r amodau rheoleiddio yn "ofynion penodol" o dan gymal 59(b) o'r Cytundeb.

¹⁴ Erthygl 49(1) o'r Siarter.

¹⁵ Mae pwerau gorfodi Ofcom wedi'u nodi o dan Erthygl 49 o'r Siarter a chymal 59 o'r Cytundeb (diffiniad o "ofynion penodol").

Cytundeb, neu drwy ddeddfwriaeth, fel cwotâu ar gyfer cynyrchiadau annibynnol¹⁶, a gofynion mewn perthynas â darpariaeth ar gyfer pobl sydd â nam ar y golwg neu'r clyw.¹⁷

- 1.11 Os yw Ofcom yn fodlon bod y BBC wedi methu cydymffurfio ag un o Amodau Rheoleiddio'r Drwydded, a'i fod wedi rhoi cyfle rhesymol i'r BBC roi sylwadau ar y mater, efallai y bydd Ofcom yn:
- 1.11.1 rhoi cyfarwyddyd i'r BBC gymryd camau y mae Ofcom yn ystyried y byddant yn unioni'r methiant i gydymffurfio (neu dderbyn ymrwymadau i wneud hynny gan y BBC), a sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â'u gofynion yn briodol yn y dyfodol;
 - 1.11.2 cyflwyno hysbysiad i'r BBC yn datgan y bydd yn rhaid talu cosb ariannol benodedig o hyd at £250,000 i Ofcom o fewn cyfnod penodol.¹⁸
- 1.12 Mae Ofcom wedi egluro sut bydd yn defnyddio ei bwerau gorfodi yn y Fframwaith Gweithredu.¹⁹
- 1.13 Mae'n rhaid i'r BBC gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, ac mae'n rhaid iddo gynnwys (ymysg pethau eraill) sut mae'r BBC wedi cyflawni ei gylch gwaith creadigol a'i gynllun gwaith; darpariaeth y BBC ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys sut cyflawnodd y BBC ei gylch gwaith creadigol yn y gwledydd a'r rhanbarthau; sut sicrhawyd bod allbwn a gwasanaethau'r BBC ar gael i'r cyhoedd; a'r gwariant ar Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU yn ôl genre.²⁰
- 1.14 Ar ôl derbyn adroddiad blynyddol y BBC, mae'n rhaid i Ofcom hefyd gyhoeddi adroddiad blynyddol, sy'n nodi sut mae Ofcom wedi cyflawni ei brif swyddogaethau yn unol â'r Siarter ledled y Deyrnas Unedig. Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn cynnwys asesiad Ofcom o gydymffurfiaid y BBC ag Amodau Rheoleiddio'r Drwydded.²¹ Mae gan Ofcom y pŵer i fynnu bod y BBC yn darparu gwybodaeth at ddibenion Ofcom er mwyn iddo allu cyflawni ei swyddogaethau.²²

Cenhadaeth y BBC

- 1.15 Cenhadaeth y BBC²³ ydy gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfia drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd ac unigryw o safon uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu.

Dibenion Cyhoeddus y BBC

- 1.16 Dyma Ddibenion Cyhoeddus y BBC²⁴:

¹⁶ Paragraff 6 o Atodlen 3 yn y Cytundeb, ac Atodlen 12 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

¹⁷ Paragraff 9 o Atodlen 3 i'r Cytundeb.

¹⁸ Erthygl 49(2) i (5) o'r Siarter ac adran 198(5) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae Ofcom yn pasio unrhyw gosbau ariannol sy'n cael eu talu ymlaen at Drysorlys EM.

¹⁹ <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/enforcement-bbc-agreement-compliance>

²⁰ Erthygl 37 y Siarter.

²¹ Erthygl 50 y Siarter.

²² Erthygl 47 y Siarter.

²³ Erthygl 5 y Siarter.

²⁴ Erthygl 6 y Siarter.

- 1.16.1 **Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas:** dylai'r BBC ddarparu rhaglenni newyddion, materion cyfoes a ffeithiol sy'n gywir ac yn ddiuedd er mwyn gwella dealltwriaeth pobl o bob rhan o'r Deyrnas Unedig a'r byd ehangach. Dylai'r cynnwys arddel y safonau golygyddol uchaf. Dylai gynnig cynnwys a dadansoddiad manwl ac amrywiol, nad ydynt ar gael yn helaeth gan ddarparwyr newyddion eraill y Deyrnas Unedig, drwy ddefnyddio newyddiadurwyr a chyflwynwyr o'r radd flaenaf, a hybu rhyddid mynegiant, er mwyn i'r holl gynulleidfaeod allu ymgysylltu'n llawn â materion pwysig yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol, yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd, yn ogystal â chyfrannu at y broses ddemocrataidd, ar bob lefel, fel dinasyddion gwybodus.
- 1.16.2 **Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed:** dylai'r BBC helpu pawb i ddysgu am wahanol bynciau mewn ffyrdd hygyrch a difyr sy'n eu hysbrydoli ac yn eu herio. Dylai'r BBC ddarparu cynnwys addysgol arbenigol er mwyn helpu i gefnogi dysgu plant a phobl ifanc ledled y Deyrnas Unedig. Dylai annog mwy o bobl i archwilio pynciau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd drwy feithrin partneriaethau gyda sefydliadau ym meysydd addysg, chwaraeon a diwylliant.
- 1.16.3 **Dangos cynnyrch a gwasanaethau creadigol ac unigryw o'r ansawdd gorau:** dylai'r BBC ddarparu allbwn o safon uchel mewn nifer o wahanol genres ar draws amrywiaeth o wasanaethau a llwyfannau, sy'n gosod y safonau yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Dylai ei wasanaethau fod yn wahanol i'r rheini a ddarperir mewn mannau eraill, a dylai gymryd risgiau creadigol, hyd yn oed os nad yw pob un yn llwyddiannus, er mwyn datblygu dulliau newydd a chynnwys arloesol.
- 1.16.4 **Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi creadigol ledled y Deyrnas Unedig drwy wneud hynny:** dylai'r BBC adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig yn ei allbwn a'i wasanaethau. Drwy wneud hynny, dylai'r BBC gynrychioli a phortreadu yn gywir ac yn ddilys fywydau pobl y Deyrnas Unedig heddiw, a chodi ymwybyddiaeth o'r diwylliannau gwahanol a safbwyntiau amgen sy'n creu ei chymdeithas. Dylai sicrhau ei fod yn darparu cynnyrch a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC ddod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau a helpu i gyfrannu at les a chydlyniant cymdeithasol y Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC, drwy ei waith comisiynu a darparu allbwn, fuddsoddi yn economïau creadigol pob un o'r gwledydd a chyfrannu at eu datblygiad.
- 1.16.5 **Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd:** dylai'r BBC sicrhau darpariaeth newyddion o safon uchel i gynulleidfaeod rhyngwladol, sy'n seiliedig ar werthoedd Prydeinig o ran cywirdeb, didueddrwydd a thegwch. Dylai ei wasanaethau rhyngwladol roi'r Deyrnas Unedig yng nghyd-destun y byd, gan wella dealltwriaeth pobl o'r Deyrnas Unedig yn gyffredinol, gan gynnwys y gwledydd a'r rhanbarthau lle bo hynny'n briodol. Dylai sicrhau ei fod yn cynhyrchu allbwn a

gwasanaethau y bydd pobl yn eu mwynhau yn y Deyrnas Unedig ac ym mhedwar ban byd.²⁵

- 1.17 Rhaid i'r BBC gefnogi amrywiaeth eang o genres sy'n cael eu gwerthfawrogi ar draws ei wasanaethau, fel rhaglenni drama, rhaglenni comedi a rhaglenni ffeithiol a gwahanol fathau o gerddoriaeth.²⁶ Drwy wneud hynny, rydyn ni'n disgwyl i'r BBC barhau i gynhyrchu rhaglenni ar amrywiaeth eang o themâu a diddordebau sydd wedi ennill eu plwyf – gan gynnwys, ond nid dim ond y rhain, rhaglenni sy'n rhoi sylw i wleidyddiaeth, busnes, materion defnyddwyr, materion gwledig, iechyd, anabledd a gweithredu cymdeithasol. Byddwn yn monitro allbwn y BBC mewn amrywiaeth o ffyrdd i sicrhau ei fod yn diwallu ei ddibenion cyhoeddus a'i fod yn darparu amrywiaeth eang o raglenni ar draws ei wasanaethau.
- 1.18 Mae'r Drwydded hon yn amlinellu'r Amodau Rheoleiddio er mwyn sicrhau bod y BBC yn parhau i ddarparu cymysgedd o genres allweddol ac allbwn o ansawdd uchel ar y teledu, ar y radio ac ar-lein, yn ogystal â sicrhau bod cyfran sylweddol o'r rhaglenni gwreiddiol yn cael eu cynhyrchu ar gyfer cynulleidfaoedd yn y Deyrnas Unedig.
- 1.19 Mae'r gofynion rydym wedi'u gosod ar gyfer y BBC wedi'u dylunio er mwyn sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, yn ogystal â darparu allbwn a gwasanaethau unigryw. Mae'r Drwydded hon a'r mesurau perfformiad rydyn ni wedi'u gosod ochr yn ochr â hi wedi cael eu dylunio i gyflawni bwriad y Siarter a'r Cytundeb newydd yn llawn, drwy roi'r penderfyniadau creadigol yn nwylo'r rheini sy'n gwneud rhaglenni, ond gan herio'r BBC i gyflawni ar gyfer ei holl gynulleidfaoedd.
- 1.20 Mae'r Drwydded hon yn rhoi'r Amodau Rheoleiddio y mae'n rhaid i'r BBC eu diwallu, gan osod gwaelodlin ar gyfer perfformiad yn y dyfodol. Mae'r amodau'n nodi'r meysydd lle mae'r Siarter a'r Cytundeb yn mynnu, neu lle rydyn ni wedi canfod, bod angen amodau penodol. Mae'r Drwydded yn rhoi gofynion heriol mewn amrywiaeth o feysydd, ond rydyn ni'n disgwyl i'r BBC fynd ymhellach. Yn ogystal â'r rheolau rydyn ni wedi'u rhoi yn y Drwydded hon, rydyn ni wedi rhoi cynlluniau manwl ar waith ar gyfer mesur perfformiad y BBC, nid yn unig yn erbyn yr Amodau Rheoleiddio yn y Drwydded hon ond ar draws yr ystod o wasanaethau ac allbwn y BBC.
- 1.21 Efallai y bydd angen newid y gofynion hyn dros amser, yn ddibynol ar y ddarpariaeth barhaus ac ymrwymiad y BBC yn y meysydd hyn, neu i adlewyrchu unrhyw gyfyngiadau ariannol ar effeithiolrwydd y BBC. Hefyd, efallai y bydd yr amodau hyn yn cael eu diwygio os bydd Ofcom o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny, er enghraifft, yn unol â pherfformiad y BBC ar draws ei wasanaethau. Rydyn ni'n disgwyl i'r BBC barhau i wella sut mae'n cyflawni yn erbyn ei gylch gwaith.
- 1.22 Mae gweddill y Drwydded hon (gan gynnwys yr Amodau Rheoleiddio) wedi'i drefnu yn ôl Diben Cyhoeddus. Mae'r Amodau Rheoleiddio yn Atodlen 1 i'r Drwydded.

²⁵ Bydd y BBC yn cyflawni ei bumed diben cyhoeddus, sef adlewyrchu'r DU i'r byd, drwy BBC World Service a BBC Worldwide yn bennaf. Ni fydd y drwydded weithredu newydd yn cynnwys BBC World Service; y BBC sy'n gyfrifol am osod trwydded ar gyfer BBC World Service (cymal 34 o'r Cytundeb).

²⁶ Ceir rhestr a disgrifiad o Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn Rhan 1, Atodlen 1 o'r Drwydded. Rydym wedi ail-gynhyrchu'r rhestr yma yn Atodlen 3 y Drwydded hon er hwylusder.

- 1.23 Mae'r Amodau Rheoleiddio naill ai'n ymwneud â gwasanaethau unigol neu, lle y bo'n briodol, yn gosod ymrwymadau rhwng gwasanaethau. Mae'n bwysig nodi y gallai nifer o Amodau Rheoleiddio fod yn berthnasol i fwy nag un Diben Cyhoeddus. Er enghraifft, mae nifer o'r Amodau Rheoleiddio ar draws y drwydded yn cyfrannu at sicrhau bod allbwn a gwasanaethau unigryw yn cael eu darparu.

Diben (1): Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas

- 1.24 Er mwyn cyflawni ei Ddiben Cyhoeddus o ddarparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas, yn unol â'i rwymedigaethau o dan y Siarter, mae Ofcom yn credu y dylai'r BBC wneud y canlynol:
- 1.24.1 darparu lefel sylweddol o newyddion, materion cyfoes a rhaglenni ffeithiol ar draws ei ystod lawn o wasanaethau a llwyfannau, yn ogystal ag ymdrechu i gyrraedd ac i wasanaethu pob cynulleidfa gyda'r allbwn hwn;
 - 1.24.2 ceisio cynnal ei ddarpariaeth o themâu rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol yn ei raglenni ffeithiol, newyddion a materion cyfoes, er mwyn galluogi cynulleidfa oedd i ddatblygu dealltwriaeth helaeth o'r hyn sy'n digwydd yn lleol, yn genedlaethol ac yn y byd ehangach;
 - 1.24.3 parhau i ddarparu allbwn ffeithiol, newyddion, materion cyfoes a gwybodaeth ddibynadwy y mae modd ymddiried ynddo, a hynny yn unol â'r safonau golygyddol uchaf;
 - 1.24.4 sicrhau ei fod yn darparu dolenni digonol at ddeunydd trydydd parti ar-lein, yn enwedig yng nghyswllt ei straeon newyddion, er mwyn darparu cyfoeth o wybodaeth i'w ddefnyddwyr a chefnogi darparwyr eraill yn y diwydiant ar yr un pryd. Wrth wneud hynny, dylai'r BBC ystyried y dolenni mae'n eu cynnig yn ofalus.
- 1.25 Yn unol â hynny, mae Ofcom wedi mynnu bod y BBC yn cydymffurfio â'r Amodau Rheoleiddio, fel y nodir yn Atodlen 1 i'r Drwydded hon, a bydd Ofcom yn sicrhau hynny.

Diben (2): Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed

- 1.26 Er mwyn cyflawni ei Ddiben Cyhoeddus o gefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed, yn unol â'i rwymedigaethau o dan y Siarter, mae Ofcom yn credu y dylai'r BBC wneud y canlynol:
- 1.26.1 parhau i ddarparu amrywiaeth helaeth o gynnwys ar draws ei wasanaethau, sy'n rhoi cyfleoedd i'r holl gynulleidfa oedd ddysgu. Rydym yn disgwyl i'r BBC gynhyrchu cynnwys dysgu anffurfiol, gan gynnwys rhaglenni sy'n mynd i'r afael â phynciau fel celf, cerddoriaeth, crefydd, gwyddoniaeth, natur, busnes a hanes a chynnwys sydd â ffocws rhyngwladol. Dylai'r cynnwys hwn fod ar gael yn helaeth, a dylai'r BBC ymdrechu i gyrraedd a gwasanaethu'r cynulleidfa oedd ehangaf posib â'r cynnwys hwn drwy ei brif sianeli teledu, ei brif orsafoedd radio a'i lwyfannau ar-lein;
 - 1.26.2 fel rhan o'i ddyletswydd i annog pobl i ddysgu am bynciau newydd a gwahanol, rydyn ni'n disgwyl i'r BBC helpu oedolion a phlant i ddatblygu sgiliau er mwyn

archwilio a defnyddio'r adnoddau mae'n eu cynnig ar draws ei wasanaethau, a'i wasanaethau ar-lein yn enwedig;

1.26.3 sicrhau ei fod yn gwasanaethu plant o bob oed, gan gynnwys plant hŷn a phobl ifanc yn eu harddegau, a'i fod yn cynhyrchu cynnwys difyr ac ysgogol ar gyfer dysgu anffurfiol sydd ar gael ar ffurfiau a gwasanaethau y mae plant yn eu defnyddio; a

1.26.4 chwarae rôl bwysig o ran addysg a dysgu yn y Deyrnas Unedig drwy feithrin partneriaethau â sefydliadau ym meysydd addysg, diwylliant a chwaraeon. Dylai'r BBC rannu ei arbenigedd a'i adnoddau, gan gynnwys ei archif, lle bo hynny'n briodol, fel rhan o'r partneriaethau hyn â sefydliadau arbenigol, er budd cynulleidfaoedd y DU.

1.27 Yn unol â hynny, mae Ofcom wedi mynnu bod y BBC yn cydymffurfio â'r Amodau Rheoleiddio, fel y nodir yn Atodlen 1 i'r Drwydded hon, a bydd Ofcom yn sicrhau hynny.

Diben (3): Dangos allbwn a gwasanaethau creadigol ac unigryw o'r ansawdd gorau

1.28 Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn diffinio "gwasanaethau ac allbwn unigryw" gan gyfeirio at greadigrwydd a safon uchel. Mae Erthygl 63 o'r Siarter, a pharagraff 1 o Atodlen 2 i'r Cytundeb, yn diffinio gwasanaethau ac allbwn unigryw fel a ganlyn:

"allbwn a gwasanaethau, a ystyrir gyda'i gilydd, sy'n wahanol iawn i ddarparwyr eraill tebyg ar draws pob Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU, yn ystod yr oriau brig ac yn gyffredinol; ac ar y teledu, ar y radio ac ar-lein, o ran-

(a) y cymysgedd o wahanol allbwn a gwasanaethau;

(b) ansawdd yr allbwn;

(c) swm y cynnyrch gwreiddiol a gynhyrchir yn y DU;

(d) lefel yr arloesi, yr her, yr uchelgais creadigol a chymryd risg; a'r

(e) cynulleidfaoedd amrywiol mae'n eu gwasanaethu."

1.29 Mae Ofcom o'r farn bod ei ddiffiniad o wasanaethau ac allbwn unigryw, ar lefel uchel, yn mynd i'r afael â'r meysydd pwysicaf y dylai'r BBC eu hystyried wrth fodloni ei Ddiben Cyhoeddus yng nghyswllt dangos allbwn a gwasanaethau creadigol ac unigryw o'r ansawdd gorau yn unol â'i ddyletswyddau o dan y Siarter a'r Cytundeb. Mae natur unigryw wrth galon y Siarter, ac mae'r rhan fwyaf o'r amodau rydyn ni'n eu rhoi ar y BBC ar draws ei wasanaethau wedi cael eu dylunio i'w hyrwyddo. Bydd nifer o'n hamodau ar gyfer y Dibenion Cyhoeddus eraill yn cyfrannu at BBC sy'n fwy unigryw. Er enghraifft, mae ein hamodau sy'n sicrhau bod newyddion a materion cyfoes yn cael eu darparu wedi'u nodi yn y Drwydded o dan Ddiben Cyhoeddus 1 yn rhan bwysig o sicrhau natur unigryw. Mewn perthynas â Diben Cyhoeddus 2, mae ein hamodau ar gyfer darparu cynnwys i blant yn bwysig o ran sicrhau natur unigryw. Yn yr un modd, mae ein hamodau o dan Ddiben Cyhoeddus 4 sy'n mynnu bod cyfran uwch o raglenni'n dod o'r gwledydd neu'r tu allan i Lundain yn rhan allweddol o sicrhau natur unigryw.

- 1.30 Rydyn ni eisiau i'r BBC ddatgan yn glir yn ei gynllun blynyddol a'i gylch gwaith creadigol bob blwyddyn sut bydd yn sicrhau bod allbwn a gwasanaethau unigryw yn cael eu darparu, a sut bydd pob un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn cyfrannu at gyflawni hyn. Bydd natur unigryw hefyd wrth galon sut rydyn ni'n mesur perfformiad.
- 1.31 Roedd y BBC wedi cyhoeddi ei gynllun blynyddol interim a oedd yn cynnwys cynllun gwaith a chylch gwaith creadigol drafft ar gyfer 2017/18 ar 3 Gorffennaf 2017.²⁷ Fel man cychwyn mae'r cynllun blynyddol interim yn ystyried yr amodau rheoleiddio roedden ni wedi'u nodi yn ein Trwydded Weithredu ddrafft, ac mae'n ychwanegu at y rhain dros 100 o ymrwymadau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys: darlledu amrywiaeth ehangach amlwg o genres yn ystod yr oriau brig ar BBC One nag unrhyw sianel debyg; comisiynu llawer o gynnwys sydd wedi'i sgriptio ar gyfer BBC Three; archwilio gwahanol fathau o raglenni, gan gynnwys ffurf arbennig o hir ar BBC Four; targedau oed ar gyfer Radio 1, 1Xtra a Radio 2; ymrwymadau drama ar gyfer Radio 3 a 4 ac ymrwymadau comedi ar gyfer Radio 4; ac ystod ehangach o chwaraeon ar 5 Live a Sports Extra nag ar unrhyw wasanaeth tebyg.
- 1.32 Ar ben hynny, mae'r BBC wedi gosod rhagor o ymrwymadau i gefnogi natur unigryw ei wasanaethau radio, ac mae'n bwriadu cynnwys y rhain yn ei gynllun blynyddol terfynol ar gyfer 2017/18. Mae'r ymrwymadau pellach hyn yn cynnwys cynyddu lefel y gerddoriaeth newydd ac o'r DU sy'n cael ei darlledu yn ystod y Dydd ar Radio 1 ac ar Radio 2 a chyflwyno rhagor o fesurau i fonitro natur unigryw'r gwasanaethau hyn wrth gymharu â'u prif gystadleuwyr radio masnachol. Mae ymrwymadau'r BBC hefyd yn berthnasol i lefel y gerddoriaeth newydd ar BBC 6 Music; cerddoriaeth newydd a cherddoriaeth gan artistiaid o'r DU yn ystod y Dydd ar 1Xtra; cerddoriaeth newydd a cherddoriaeth o'r DU yn ystod y Dydd ar y BBC Asian Network; drama a chomedi gwreiddiol ar Radio 4; comedi a drama ar Radio 4 Extra; drama newydd ar Radio 3; ac ymrwymadau adrodd ar BBC Radio 5 live sports extra, ac adolygiad gan y BBC o gylch gwaith yr orsaf ac amrywiaeth o gynnwys darlledu.²⁸
- 1.33 Mae Ofcom yn ystyried hynny mewn perthynas â darparu allbwn a gwasanaethau unigryw:
- 1.33.1 mewn perthynas â'r gymysgedd o genres gwahanol, dylai'r BBC sicrhau bod amrywiaeth o raglenni yn cael eu darparu ar draws ei wasanaethau teledu. Dylai hefyd sicrhau nifer ac amlygrwydd y genres hynny y nodwyd eu bod mewn perygl neu'n dirywio ar draws ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys: cerddoriaeth, celfyddydau, crefydd, comedi a rhaglenni i blant. Ar ei wasanaethau radio, dylai'r BBC sicrhau bod ei bortffolio o orsafoedd yn cynnig yr amrywiaeth ehangaf bosib o allbwn cerddorol, a bod yr amrywiaeth o allbwn cerddorol ar ei wasanaethau radio poblogaidd²⁹ yn fwy eang na darparwyr tebyg;
- 1.33.2 mewn perthynas ag ansawdd yr allbwn, dylai'r BBC sicrhau ansawdd uchel ar draws ei allbwn, gan ystyried y cynnwys, ansawdd cynhyrchu'r cynnwys, yn ogystal â sgil broffesiynol a gonestrwydd golygyddol y cynhyrchiad hwnnw;

²⁷ http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/reports/pdf/BBC_Annual_Plan_2017-18.pdf

²⁸ Llythyr gan y BBC at Ofcom, 14 Awst 2017
https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0022/105934/BBC-3.pdf

²⁹ Mae "gwasanaethau radio poblogaidd" yn golygu Radio 1 a Radio 2.

- 1.33.3 mewn perthynas â faint o allbwn gwreiddiol a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig, dylai'r BBC sicrhau bod cyfran helaeth o'r rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar ei wasanaethau teledu yn gynyrchiadau gwreiddiol, yn enwedig yn ystod yr Oriau Gwyllo Brig. Dylai'r BBC hefyd sicrhau bod nifer priodol o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn cael eu dangos ar draws ei wasanaethau teledu, gan sicrhau eu bod yn llenwi cyfran helaeth o'r Oriau Gwyllo Brig. Dylai'r BBC gyfrannu at economïau creadigol y Deyrnas Unedig drwy fuddsoddi'n gyson mewn cynnwys gwreiddiol;
- 1.33.4 mewn perthynas â lefel yr arloesi, yr her yr uchelgais creadigol a chymryd risg, dylai'r BBC barhau i gymryd risgiau yng nghyswllt yr allbwn mae'n ei gomisiynu, yr amrywiaeth o sefydliadau mae'n comisiynu ganddyn nhw a chanolbwyntio o'r newydd ar arloesedd a chymryd risgiau creadigol drwy gomisiynu ac amserlennu teitlau newydd. Drwy wneud hynny, dylai'r BBC sicrhau cydbwysedd priodol o deitlau unigryw a chyfresi sydd wedi bod yn rhedeg ers tro byd. Dylai hefyd gomisiynu allbwn gan amrywiaeth eang o gynhyrchwyr annibynnol i sicrhau bod amrywiaeth o leisiau a syniadau'n cael eu hadlewyrchu ar draws ei wasanaethau; ac
- 1.33.5 mewn perthynas â'r gynulleidfa mae'n ei gwasanaethu, dylai'r BBC sicrhau fod ei allbwn a'i wasanaethau'n gwasanaethu ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol y Deyrnas Unedig, drwy ei wasanaethau genres cymysg poblogaidd a'i wasanaethau un diben a mwy arbenigol.
- 1.34 Yn unol â hynny, mae Ofcom wedi mynnu bod y BBC yn cydymffurfio â'r Amodau Rheoleiddio, fel y nodir yn Atodlen 1 i'r Drwydded hon, a bydd Ofcom yn sicrhau hynny. Mae'r Amodau Rheoleiddio yn rhoi pwyslais penodol ar gynnwys newydd a gwreiddiol, ac maen nhw'n cynnwys mwy o ofynion am gynyrchiadau gwreiddiol ar BBC One, BBC Two, CBBC a BBC Four; gofynion rhaglenni gwreiddiol o'r DU a fydd yn cael eu dangos am y tro cyntaf i sicrhau buddsoddiad y BBC mewn rhaglenni newydd; cwota newydd ar gyfer comedi ar BBC One a BBC Two; gofynion newydd ar Radio 1 a Radio 2 i chwarae ystod ehangach o gerddoriaeth na'r hyn mae darparwyr tebyg yn ei darparu a mwy o gerddoriaeth gan artistiaid newydd ac sy'n dod i'r amlwg yn y DU; a gofyniad i Radio 1 gynnig nifer sylfaenol o ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol mawr. Rydyn ni hefyd wedi nodi yn yr un adran o Atodlen 1 i'r Drwydded restr o'r amodau sydd wedi cael eu grwpio yn y Drwydded hon o dan y dibenion cyhoeddus eraill maen nhw'n berthnasol iddyn nhw (dibenion 1, 2 a 4) ac maen nhw hefyd yn allweddol i sicrhau'r diben cyhoeddus o ddangos yr allbwn mwyaf creadigol, ansawdd uchel ac unigryw.

Diben (4): Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig drwy wneud hynny

- 1.35 Er mwyn cyflawni ei Ddiben Cyhoeddus o adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig drwy wneud hynny, yn unol â'i rwymedigaethau o dan y Siarter, mae Ofcom yn credu y dylai'r BBC wneud y canlynol.

Amrywiaeth, portreadu a chynrychioli cynulleidfaoedd

- 1.36 Mewn perthynas ag amrywiaeth, dylai'r BBC wneud y canlynol:
- 1.36.1 gwasanaethu pob cynulleidfa ledled y Deyrnas Unedig a chreu cynnwys sy'n berthnasol iddynt ac o ddiddordeb iddynt;
 - 1.36.2 adlewyrchu amrywiaeth gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig yn briodol yn ei allbwn, ei wasanaethau a'i genres. Dylai hyn gynnwys oedran, anabled, ailbennu rhywedd, hil, crefydd a chred, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol a chefnidir economaidd-gymdeithasol;
 - 1.36.3 cynrychioli a phortreadu'r cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig yn gywir ac yn ddilys,³⁰ a
 - 1.36.4 helpu i gyfrannu at les cymdeithasol drwy addysg ddiwylliannol, ymwybyddiaeth a dod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau.
- 1.37 Drwy wneud hynny, byddem yn disgwyl i weithlu'r BBC a gweithlu'r cwmnïau cynhyrchu mae'n comisiynu rhaglenni ganddyn nhw i adlewyrchu gwneuthuriad cymunedau gwahanol ar draws y Deyrnas Unedig a'i gwledydd a'i rhanbarthau – a dangos cynnydd amlwg o un flwyddyn i'r llall.
- 1.38 Rydyn ni hefyd yn cynnal adolygiad manwl o sut caiff cynulleidfaoedd gwahanol eu cynrychioli a'u portreadu ar y BBC. Dylai pob cynulleidfa deimlo bod y BBC yn cynnig rhywbeth iddyn nhw, ond mae ein hymchwil yn dangos nad ydy nifer o grwpiau'n teimlo ei fod yn cynrychioli eu diddordebau neu eu bywydau'n ddigonol. Dyma ein hadolygiad ad hoc cyntaf o'r BBC.³¹ Bydd yn gofyn beth mae cynulleidfaoedd yn ei ddisgwyl gan y BBC, er mwyn deall a yw'n adlewyrchu ac yn portreadu bywydau pawb ar draws y DU i gyd, gan amrywio o gynulleidfaoedd iau a hŷn i gymunedau amrywiol. Byddwn yn ystyried canlyniadau'r adolygiad wrth i ni siapio ein gwaith rheoleiddio yn y dyfodol, a byddwn yn cymryd mesurau pellach pan fydd angen i sicrhau bod y BBC yn cyflawni ar gyfer ei holl gynulleidfaoedd.

Gwledydd a Rhanbarthau

- 1.39 Mewn perthynas â gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, dylai'r BBC wneud y canlynol:
- 1.39.1 cynrychioli a phortreadu pob carfan o gynulleidfa'r gwledydd a'r rhanbarthau yn gywir ac yn ddilys ar draws ei allbwn, ei wasanaethau a'i genres³²;

³⁰ Mae "cynrychiolaeth" yn golygu i ba raddau mae pobl a nodweddion yn ymddangos, ac mae "portread" yn golygu'r ffyrdd y caiff y bobl a'r cymeriadau hyn eu darlunio. Er mwyn i gynrychiolaeth fod yn gywir rydyn ni'n disgwyl i nifer y bobl sy'n ymddangos ar raglenni'r BBC fod yn adlewyrchiad cyffredinol o boblogaeth y Deyrnas Unedig. Byddwn yn asesu i ba raddau y mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu portreadu'n ddilys drwy ymchwil ymysg cynulleidfaoedd.

³¹ Pan fo'n briodol, mae'n rhaid i Ofcom gynnal a chyhoeddi adolygiadau ychwanegol ("ad hoc") i roi sylw i unrhyw faterion penodol sy'n peri pryder a nodwyd gan Ofcom sy'n ymwneud â gweithgareddau'r BBC sy'n destun rheoliadau gan Ofcom o dan y Siarter a'r Cytundeb Fframwaith (Erthygl 51(3) o'r Siarter).

³² Mae "cynrychiolaeth" yn golygu i ba raddau y mae pobl a nodweddion yn ymddangos, ac mae "portread" yn golygu'r ffyrdd y caiff y bobl a'r cymeriadau hyn eu darlunio. Er mwyn i gynrychiolaeth fod yn gywir rydyn ni'n disgwyl i nifer y bobl sy'n ymddangos ar raglenni'r BBC fod yn adlewyrchiad cyffredinol o boblogaeth y Deyrnas Unedig. Byddwn yn asesu i ba raddau y mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu portreadu'n ddilys drwy ymchwil ymysg cynulleidfaoedd.

- 1.39.2 dosbarthu ei adnoddau cynhyrchu ledled y Deyrnas Unedig gan sicrhau ei fod yn cefnogi'r diwydiannau creadigol yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Dylai hyn hefyd gynnwys cynhyrchu ledled rhanbarthau Lloegr a meithrin twf cynaliadwy ar gyfer y diwydiannau creadigol ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig;
 - 1.39.3 sicrhau bod rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau yn gwasanaethu'r bobl sy'n byw yn yr ardal lle darperir y gwasanaeth ac yn creu cynnwys sy'n berthnasol ac o ddiddordeb iddynt. Yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, dylai hyn gynnwys darlledu yn yr ieithoedd brodorol ac amrywiaeth helaeth o genres, gan gynnwys drama, comedi a chwaraeon; a
 - 1.39.4 chyfrannu at les cymdeithasol drwy addysg ddiwylliannol, ymwybyddiaeth a dod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau.
- 1.40 Yn unol â hynny, mae Ofcom wedi mynnu bod y BBC yn cydymffurfio â'r Amodau Rheoleiddio, fel y nodir yn Atodlen 1 i'r Drwydded hon, a bydd Ofcom yn sicrhau hynny.

Atodlen 1

Amodau rheoleiddio

- 2.1 Mae Ofcom wedi gosod yr Amodau Rheoleiddio canlynol mae'n ystyried sy'n briodol er mwyn mynnu bod y BBC yn:
- 2.1.1 cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus;
 - 2.1.2 sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau unigryw; a
 - 2.1.3 sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da.
- 2.2 Mae Ofcom wedi gosod yr Amodau Rheoleiddio ar ôl ystyried yr hyn mae'n ei ddisgwyl gan y BBC yn unol â'r Drwydded hon. Bydd yr Amodau Rheoleiddio hyn yn cael eu diwygio gan Ofcom yn rheolaidd os bydd Ofcom o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny gan gynnwys diwygio yn unol â pherfformiad y BBC.
- 2.3 Mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â'r Amodau Rheoleiddio wrth ddarparu Gwasanaethau Cyhoeddus y DU drwy gydol Cyfnod y Drwydded, gan ddechrau ar 1 Ionawr 2018.³³

Diben (1): Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas

- 2.4 Mewn perthynas â **BBC One**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
- 2.4.1 ei fod yn dangos rhaglenni newyddion rhwydwaith yn achlysurol drwy gydol y dydd;
 - 2.4.2 bod o leiaf 1,520 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion rhwydwaith ym mhob Blwyddyn Galendr, ac mae'n rhaid i o leiaf 280 o'r oriau hynny fod yn ystod yr Oriau Gwyllo Brig. At ddibenion y gofyniad hwn, nid yw "rhaglenni newyddion rhwydwaith" yn cynnwys rhaglenni dros nos sy'n gyd-ddarllediadau o'r rhaglenni ar sianel BBC News, ac
 - 2.4.3 Bod o leiaf 45 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni materion cyfoes rhwydwaith yn ystod yr Oriau Gwyllo Brig ym mhob Blwyddyn Galendr.
- 2.5 Mewn perthynas â **BBC One** a **BBC Two** gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 450 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni materion cyfoes yn ystod bob Blwyddyn Galendr, a rhaid i o leiaf 106 o'r oriau hynny fod yn ystod yr Oriau Gwyllo Brig.
- 2.6 Mewn perthynas â **CBBC**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
- 2.6.1 ei fod yn dangos newyddion yn achlysurol drwy gydol y dydd; a

³³ Mae rhai o'r Amodau Rheoleiddio yn gosod gofynion gan gyfeirio at flwyddyn ariannol. At y dibenion hyn mae'r flwyddyn ariannol gyntaf yn dechrau ar 1 Ebrill 2018 (edrychwch ar y diffiniad o "Flwyddyn Ariannol" yn Atodlen 2 i'r Drwydded).

- 2.6.2 bod o leiaf 85 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer newyddion ym mhob Blwyddyn Ariannol.
- 2.7 Mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod **sianel BBC News** yn cynnwys
 - 2.7.1 mwy o newyddion rhyngwladol; a
 - 2.7.2 mwy o newyddion lleol/rhanbartholna phrif sianeli newyddion parhaus eraill y Deyrnas Unedig.
- 2.8 Mewn perthynas â **Radio 1**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
 - 2.8.1 bod o leiaf awr yn cael ei neilltuo ar gyfer newyddion yn ystod y Dydd bob diwrnod gwaith (ac eithrio ar Wyliau Banc), a bod hynny'n cynnwys o leiaf dau fwletin estynedig, ac mae'n rhaid i o leiaf un o'r rhain fod yn ystod yr Oriau Gwrando Brig; a
 - 2.8.2 bod bwletinau'n cael eu darparu ar adegau rheolaidd yn ystod y Dydd ar benwythnosau.
- 2.9 Mewn perthynas â **1Xtra**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
 - 2.9.1 bod o leiaf awr yn cael ei neilltuo ar gyfer newyddion yn ystod y Dydd bob diwrnod gwaith (ac eithrio ar Wyliau Banc), a bod hynny'n cynnwys o leiaf dau fwletin estynedig; a
 - 2.9.2 bod bwletinau'n cael eu darparu ar adegau rheolaidd yn ystod y Dydd ar benwythnosau.
- 2.10 Mewn perthynas â **Radio 2**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
 - 2.10.1 bod o leiaf 17 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes bob wythnos a bod yn rhaid i o leiaf 3 awr fod yn ystod yr Oriau Gwrando Brig; a
 - 2.10.2 bod bwletinau newyddion yn cael eu darparu ar adegau rheolaidd.
- 2.11 Mewn perthynas â **Radio 3**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu newyddion yn achlysurol drwy gydol y dydd.
- 2.12 Mewn perthynas â **Radio 4**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
 - 2.12.1 bod o leiaf 2,750 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau) ym mhob Blwyddyn Ariannol; a
 - 2.12.2 bod adroddiadau dyddiol ynghylch gweithgareddau Seneddol yn cael eu darparu pan mae'r Senedd yn eistedd.
- 2.13 Mewn perthynas â **BBC Radio 5 live**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
 - 2.13.1 bod yn rhaid i o leiaf 75% o'i allbwn ym mhob Blwyddyn Ariannol fod yn rhaglenni newyddion a materion cyfoes; a
 - 2.13.2 bod sylw helaeth yn cael ei roi i etholiadau lleol a chyffredinol, ac etholiadau yn siambrau datganoledig y Deyrnas Unedig, yn ogystal â sylw rheolaidd i wleidyddiaeth Ewrop a gwleidyddiaeth ryngwladol.

- 2.14 Mewn perthynas â **BBC 6 Music**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 6 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer newyddion bob wythnos.
- 2.15 Mewn perthynas â **BBC Asian Network**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 24 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes bob wythnos.
- 2.16 Caiff y BBC ofyn yn ysgrifenedig bod y gofynion yn amod 2.8.1, 2.9.1, 2.10.1, 2.14 neu 2.15 yn cael eu gohirio am gyfnod penodol. Bydd Ofcom yn ystyried unrhyw gais o'r fath a gall gytuno ar y cais os yw'n fodlon ei bod hi'n briodol gwneud hynny yn amgylchiadau penodol yr achos. Gall amgylchiadau o'r fath gynnwys, ond nid y rhain yn unig, newidiadau arfaethedig i amserlenni er mwyn rhoi sylw i ddigwyddiad byw fel gŵyl gerddorol.
- 2.17 Mewn perthynas â **BBC Ar-lein**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu digon o ddolenni i ddeunydd gan drydydd partïon.

Diben (2): Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed

- 2.18 Mewn perthynas â **BBC One**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 45 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni am y celfyddydau a rhaglenni cerddoriaeth bob Blwyddyn Ariannol, a rhaid i rai o'r rhain fod yn ystod yr Oriau Gwyllo Brig. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni am y celfyddydau a rhaglenni cerddoriaeth" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a rhaglenni sy'n cael eu prynu.
- 2.19 Mewn perthynas â **BBC One** a **BBC Two** gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 115 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni crefyddol yn ystod bob Blwyddyn Ariannol, a rhaid i rai ohonynt fod yn ystod yr Oriau Gwyllo Brig. At ddibenion y gofyniad hwn mae "rhaglenni crefyddol" yn cynnwys ailddarllediadau a rhaglenni sydd wedi cael eu prynu ac nid yw'n cynnwys allbwn darlledu dros nos yn y *Sign Zone*.
- 2.20 Mewn perthynas â **BBC Two**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 175 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni am y celfyddydau a rhaglenni cerddoriaeth bob Blwyddyn Ariannol, a rhaid i rai o'r rhain fod yn ystod yr Oriau Gwyllo Brig. At ddibenion y gofyniad hwn mae "rhaglenni am y celfyddydau a rhaglenni cerddoriaeth" yn cynnwys ailddarllediadau a rhaglenni sydd wedi cael eu prynu ac nid yw'n cynnwys allbwn darlledu dros nos yn y *Sign Zone*.
- 2.21 Mewn perthynas â **BBC Four**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 175 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newydd am y celfyddydau a cherddoriaeth bob Blwyddyn Ariannol. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni newydd am y celfyddydau a cherddoriaeth" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu prynu.
- 2.22 Mewn perthynas â **CBeebies**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu amrywiaeth o gynnwys sy'n cefnogi dysgu plant cyn-ysgol bob Blwyddyn Ariannol.
- 2.23 Mewn perthynas â **CBBC**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ym mhob Blwyddyn Ariannol:
- 2.23.1 bod o leiaf 1,000 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer drama (gan gynnwys ailddarllediadau a rhaglenni sy'n cael eu prynu); a
 - 2.23.2 bod o leiaf 675 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni ffeithiol. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni ffeithiol" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a rhaglenni sy'n cael eu prynu.
- 2.24 Mewn perthynas â **BBC Alba**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 5 awr bob wythnos yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni gwreiddiol wedi'u hanelu at bobl sy'n dysgu Gaeleg. At ddibenion y gofyniad hwn ynghylch "rhaglenni gwreiddiol":
- 2.24.1 nid ydynt yn cynnwys newyddion;
 - 2.24.2 maent yn cynnwys rhaglenni sydd wedi cael eu dangos ar Wasanaethau Cyhoeddus eraill yn y DU.
- 2.25 Mewn perthynas â **Radio 1**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darlledu o leiaf 40 o raglenni dogfen newydd bob Blwyddyn Ariannol. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni dogfen newydd" yn cynnwys rhaglenni dogfen sydd wedi'u darlledu ar 1Xtra.

- 2.26 Mewn perthynas â **1Xtra**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 40 rhaglen ddogfen ym mhob Blwyddyn Ariannol. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni dogfen" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu.
- 2.27 Mewn perthynas â **Radio 2**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ym mhob Blwyddyn Ariannol:
- 2.27.1 bod o leiaf 100 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni am y celfyddydau. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni am y celfyddydau" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu;
 - 2.27.2 bod o leiaf 130 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni dogfen. At ddibenion y gofyniad hwn, nid yw "rhaglenni dogfen" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu; a
 - 2.27.3 bod o leiaf 170 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer allbwn crefyddol, a bod yr allbwn yn berthnasol i sawl ffydd wahanol. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "allbwn crefyddol" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu. Dim ond er mwyn dangos hyn, gallai allbwn crefyddol gynnwys sylw i ddigwyddiadau pwysig yn y calendr crefyddol, cerddoriaeth grefyddol, a chyfweiliadau gydag arweinwyr crefyddol yn y gymuned.
- 2.28 Mewn perthynas â **Radio 3**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ym mhob Blwyddyn Ariannol:
- 2.28.1 bod o leiaf 45% o allbwn cerddoriaeth yr orsaf yn cynnwys cerddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig neu gerddoriaeth fyw;
 - 2.28.2 bod o leiaf 440 o berfformiadau byw neu sydd wedi'u recordio'n arbennig yn cael eu darlledu;
 - 2.28.3 bod o leiaf 25 o weithiau cerddorol newydd yn cael eu comisiynu (heb gynnwys ailddarllediadau); a
 - 2.28.4 bod o leiaf 35 o raglenni dogfen newydd am bynciau celfyddydol a diwylliannol yn cael eu darlledu (heb gynnwys ailddarllediadau). Dim ond er mwyn dangos hyn, gallai rhaglenni dogfen am bynciau celfyddydol a diwylliannol gynnwys rhaglenni er mwyn helpu cynulleidfaoedd i ddatblygu eu dealltwriaeth o gerddoriaeth a phynciau diwylliannol eraill fel hanes, gwyddoniaeth, athroniaeth, ffilm, celfyddydau gweledol a llenyddiaeth.
- 2.29 Mewn perthynas â **Radio 4**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ym mhob Blwyddyn Ariannol:
- 2.29.1 bod o leiaf 375 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni dogfen gwreiddiol (heb gynnwys ailddarllediadau) sy'n trafod amrywiaeth o bynciau gwahanol. Dim ond er mwyn dangos hyn, gallai'r rhaglenni dogfen hyn gynnwys rhaglenni ar bynciau fel gwleidyddiaeth, busnes, cyfraith, cyllid, iechyd, addysg, bwyd a ffermio, materion rhyngwladol, crefydd, moeseg, teithio a garddio; a
 - 2.29.2 bod o leiaf 200 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni crefyddol gwreiddiol (heb gynnwys ailddarllediadau), a bod yr allbwn yn berthnasol i sawl ffydd wahanol.
- 2.30 Mewn perthynas â **BBC 6 Music**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bob wythnos, ar gyfartaledd ar draws bob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf 10 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer un neu ragor o'r canlynol: nodweddion llafar, rhaglenni dogfen a thraethodau. Dim ond er mwyn dangos hyn,

gallai'r nodweddion llafar, rhaglenni dogfen a thraethodau gynnwys rhaglenni i helpu cynulleidfaoedd i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r gerddoriaeth, er enghraifft drwy archwilio cerddoriaeth a phatrymau cymdeithasol dros y blynyddoedd, a nodweddion ar artistiaid a symudiadau cerddorol gwahanol.

- 2.31 Mewn perthynas â **BBC Ar-lein**, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu cynnwys sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc â'u haddysg ffurfiol ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig.

Diben (3): Dangos allbwn a gwasanaethau creadigol ac unigryw o'r ansawdd gorau

Mae'r rhan fwyaf o'r Amodau Rheoleiddio yn y Drwydded hon yn bwysig i sicrhau BBC sy'n fwy unigryw. Mae nifer o'r rhain wedi cael eu grwpio o dan y Dibenion Cyhoeddus eraill maen nhw'n berthnasol iddyn nhw'n benodol (dibenion 1, 2 a 4) ac maen nhw hefyd yn allweddol i sicrhau'r Diben Cyhoeddus o ddangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, unigryw ac o'r ansawdd gorau. Mae rhestr o'r Amodau Rheoleiddio hyn ymddangos ar ddiwedd y rhan hon o'r Drwydded o dan amod 2.41.

Cynyrchiadau gwreiddiol

2.32 Ym mhob Blwyddyn Galendr bydd y BBC yn sicrhau yng nghyswllt yr amser sy'n cael ei neilltuo ar gyfer darlledu cynyrchiadau gwreiddiol gan bob Gwasanaeth Teledu Cyhoeddus yn y DU a nodir yng ngholofn I isod:

2.32.1 nad yw'n llai na'r ganran o gyfanswm yr amser sy'n cael ei neilltuo i ddarlledu'r holl raglenni ar gyfer y gwasanaeth a nodir yng ngholofn II; ac

2.32.2 nad yw'n llai na'r ganran o gyfanswm yr amser sy'n cael ei neilltuo i ddarlledu'r holl raglenni ar gyfer y gwasanaeth hwnnw yn ystod yr Oriau Gwyllo Brig, a nodir yng ngholofn III.

Mae "cynyrchiadau gwreiddiol", mewn perthynas â Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU gyda'i gilydd, yn golygu'r un fath â'r hyn a nodir yng Ngorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Gwreiddiol) 2004 neu unrhyw orchymyn dilynol o dan adran 278(6) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 mewn perthynas â sianel gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig.

Colofn I	Colofn II	Colofn III
Gwasanaeth	Cynyrchiadau gwreiddiol fel canran o oriau'r holl raglenni	Cynyrchiadau gwreiddiol yn ystod yr Oriau Gwyllo Brig fel canran o oriau'r holl raglenni yn ystod yr Oriau Gwyllo Brig
BBC One	75%	90%
BBC Two	75%	90%
BBC Four	75%	60%
BBC Parliament	90%	-
Sianel BBC News	90%	-
CBBC	72%	-
CBeebies	70%	-
BBC Alba	75%	-
BBC Scotland	75%	-

Rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf yn y DU

2.33 Mewn perthynas â **BBC One**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 4,000 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer darlledu rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf yn y DU, yn ystod y Dydd ac yn ystod yr Oriau Gwyllo Brig ym mhob Blwyddyn Galendr.

- 2.34 Mewn perthynas â **BBC Two**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 2,200 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer darlledu rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf yn y DU, yn ystod y Dydd ac yn ystod yr Oriau Gwyllo Brig ym mhob Blwyddyn Galendr.
- 2.35 Mewn perthynas â **CBBC**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 400 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer darlledu rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf yn y DU, yn ystod y Dydd ac yn ystod yr Oriau Gwyllo Brig ym mhob Blwyddyn Galendr.
- 2.36 Mewn perthynas â **CBeebies**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 100 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer darlledu rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf yn y DU, yn ystod y Dydd ac yn ystod yr Oriau Gwyllo Brig ym mhob Blwyddyn Galendr.
- 2.37 At ddibenion amodau 2.33 i 2.36:
- 2.37.1 mae "rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn y DU" yn golygu rhaglenni sy'n cael eu comisiynu gan neu ar gyfer Gwasanaeth Teledu Cyhoeddus yn y DU ac nad ydynt wedi cael eu dangos o'r blaen ar deledu yn y Deyrnas Unedig; a
- 2.37.2 mae cyfeirio at oriau'n golygu oriau sy'n cael eu mesur mewn slotiau amser³⁴ ar gyfer rhaglenni gyda slotiau amser o 10 munud neu fwy, neu oriau sy'n cael eu mesur mewn amseroedd rhedeg³⁵ ar gyfer rhaglenni sydd ag amser slot o lai na 10 munud.

Natur Unigryw

- 2.38 Mewn perthynas â **BBC One** a **BBC Two** gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 300 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni comedi yn ystod bob Blwyddyn Ariannol, a rhaid i rai ohonynt fod yn ystod yr Oriau Gwyllo Brig. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni comedi" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a rhaglenni sy'n cael eu prynu.
- 2.39 Mewn perthynas â **Radio 1**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
- 2.39.1 bod o leiaf 45% o'r gerddoriaeth a ddarlledir yn ystod y Dydd gan artistiaid o'r Deyrnas Unedig ym mhob Blwyddyn Ariannol;
- 2.39.2 bod o leiaf 45% o'r gerddoriaeth a ddarlledir yn ystod y Dydd yn Gerddoriaeth Newydd ym mhob Blwyddyn Ariannol, a rhaid i gyfran sylweddol o'r rhain fod gan artistiaid newydd ac artistiaid sy'n datblygu yn y Deyrnas Unedig;
- 2.39.3 bod o leiaf 60 awr o gerddoriaeth arbenigol yn cael eu darlledu bob wythnos. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "cerddoriaeth arbenigol" yn golygu cerddoriaeth sy'n apelio at grwpiau penodol o wrandawyr ac sy'n canolbwyntio ar genre penodol o gerddoriaeth neu ar gerddoriaeth flaengar o amrywiaeth o genres;
- 2.39.4 bod o leiaf 175 o sesiynau newydd byw neu wedi'u recordio yn ystod y tri mis blaenorol, yn cael eu darlledu bob Blwyddyn Ariannol (heb gynnwys ailddarllediadau);

³⁴ hy gan gynnwys deunyddiau cyflwyno yn ystod ac ar ddiwedd rhaglenni.

³⁵ hy heb gynnwys deunyddiau cyflwyno.

- 2.39.5 bod yr orsaf yn chwarae amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na darparwyr tebyg, gan ystyried sawl gwaith caiff caneuon eu chwarae a maint y rhestr chwarae, yn ystod y Dydd ac yn ystod yr Oriau Gwrandio Brig;³⁶
- 2.39.6 ei fod yn cynnig o leiaf dwy ymgyrch gweithredu cymdeithasol fawr ym mhob Blwyddyn Galendr.
- 2.40 Mewn perthynas â **Radio 2**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
- 2.40.1 bod o leiaf 40% o'r gerddoriaeth a ddarlledir yn ystod y Dydd gan artistiaid o'r Deyrnas Unedig ym mhob Blwyddyn Ariannol.
- 2.40.2 bod o leiaf 20% o'r gerddoriaeth a ddarlledir yn ystod y Dydd yn Gerddoriaeth Newydd ym mhob Blwyddyn Ariannol, a rhaid i gyfran sylweddol o'r rhain fod gan artistiaid newydd ac artistiaid sy'n datblygu yn y Deyrnas Unedig.
- 2.40.3 bod o leiaf 260 awr o gerddoriaeth fyw yn cael eu darlledu bob Blwyddyn Ariannol;
- 2.40.4 bod o leiaf 1,100 awr o raglenni cerddoriaeth arbenigol yn cael eu darlledu bob Blwyddyn Ariannol. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "cerddoriaeth arbenigol" yn golygu cerddoriaeth sy'n apelio at grwpiau penodol o wrandawyr ac sy'n canolbwyntio ar genre penodol o gerddoriaeth neu ar gerddoriaeth flaengar o amrywiaeth o genres; a
- 2.40.5 bod yr orsaf yn chwarae amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na darparwyr tebyg, gan ystyried sawl gwaith caiff caneuon eu chwarae a maint y rhestr chwarae, yn ystod y Dydd ac yn ystod yr Oriau Gwrandio Brig.³⁷
- 2.41 Mewn perthynas â **BBC Radio 5 live**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod sylwebaeth fyw yn cael ei chynnig mewn perthynas ag o leiaf 20 o chwaraeon ym mhob Blwyddyn Ariannol.

Mae'r Amodau Rheoleiddio canlynol wedi cael eu grwpio yn y Drwydded hon o dan y Dibenion Cyhoeddus eraill maen nhw'n berthnasol iddyn nhw (dibenion 1, 2 a 4) ac maen nhw hefyd yn allweddol i sicrhau'r Diben Cyhoeddus o ddangos yr allbwn mwyaf creadigol, unigryw ac o'r ansawdd gorau.

³⁶ At ddibenion adnabod darparwyr tebyg, mae'r disgrifiad o wasanaeth Radio 1 a gyhoeddwyd o dan Ran 1, Atodlen 1 i'r Cytundeb, a'r cynulleidfaoedd mae'n eu denu, yn ystyriaethau pwysig. Wrth ddefnyddio'r dull gweithredu hwn, rydyn ni'n disgwyl y bydd gwasanaeth radio sy'n cynnig gwasanaeth cerddoriaeth boblogaidd, sy'n chwarae cerddoriaeth newydd ac sy'n apelio at gynulleidfaoedd ifanc yn ddarparwr tebyg i Radio 1.

³⁷ At ddibenion adnabod darparwyr tebyg, mae'r disgrifiad o wasanaeth Radio 2 a gyhoeddwyd o dan Ran 2, Atodlen 1 i'r Cytundeb, a'r gynulleidfa mae'n ei denu, yn ystyriaethau pwysig. I'r graddau mae Radio 2 yn cyflawni ei ofyniad i chwarae cerddoriaeth arbenigol drwy chwarae cerddoriaeth o'r fath y tu allan i'r Oriau Gwrandio Brig a heb fod yn ystod y Dydd, ni fyddem yn ystyried bod gorsaf sy'n arbenigo mewn genre cerddoriaeth arbenigol yn ddarparwr tebyg.

Enw'r gwasanaeth	Crynodeb o'r Amodau Rheoleiddio³⁸	Rhif yr Amod Rheoleiddio
<i>BBC One</i>	<i>Rhaglenni newyddion rhwydwaith yn achlysurol drwy gydol y dydd</i>	2.4.1
<i>BBC One</i>	<i>Cwota ar gyfer rhaglenni newyddion rhwydwaith mewn Blwyddyn Galendr (1,520 awr, a 280 o'r oriau hynny yn ystod yr Oriau Brig)</i>	2.4.2
<i>BBC One</i>	<i>Cwota ar gyfer materion cyfoes rhwydwaith Oriau Brig mewn Blwyddyn Galendr (45 awr)</i>	2.4.3
<i>BBC One</i>	<i>Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer rhaglenni am y celfyddydau a rhaglenni cerddoriaeth (45 awr, a rhaid i rai o'r rheini fod yn ystod yr Oriau Brig)</i>	2.18
<i>BBC One a BBC Two</i>	<i>Cwota ar gyfer rhaglenni materion cyfoes mewn Blwyddyn Galendr (450 awr, a 106 o'r oriau hynny yn ystod yr Oriau Brig)</i>	2.5
<i>BBC One a BBC Two</i>	<i>Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer rhaglenni crefyddol (115 awr, a rhaid i rai o'r rheini fod yn ystod yr Oriau Brig)</i>	2.19
<i>BBC One a BBC Two</i>	<p><i>Cwota ar gyfer rhaglenni o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol mewn Blwyddyn Galendr (5,909³⁹ awr wedi 2019), gan gynnwys</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>amrywiaeth addas o raglenni;</i> • <i>557 awr⁴⁰ wedi 2019 o raglenni heb fod yn newyddion yn ystod oriau brig</i> • <i>awr o raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion yn ystod yr Oriau Brig;</i> • <i>179 awr⁴¹ o raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion yn syth cyn neu ar ôl yr Oriau Brig;</i> • <i>mae'n ofyniad penodol bod BBC One yn darlledu o leiaf 4,300 awr o newyddion sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol yn achlysurol drwy gydol y dydd, ac mae'n rhaid i 2,100 o'r rheini fod yn ystod yr Oriau Brig.</i> 	2.67; 2.68
<i>BBC Two</i>	<i>Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer rhaglenni am y celfyddydau a rhaglenni cerddoriaeth (175 awr, a rhaid i rai o'r rheini fod yn ystod yr Oriau Brig)</i>	2.20
<i>BBC One Scotland</i>	<i>Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (290 awr) a rhaglenni heb fod yn raglenni newyddion (155 awr)</i>	2.78
<i>BBC One Scotland a BBC Scotland</i>	<i>Amrywiaeth o genres mewn rhaglenni sy'n adlewyrchu diwylliant yr Alban</i>	2.79, 2.80

³⁸ Mae'r tabl hwn yn cynnwys crynodeb o'r amodau perthnasol. Mae'r testun llawn ac awdurdodol ar gael yn y Drwydded hon yn yr Amod Rheoleiddio a nodir.

³⁹ 5,969 awr yn 2019

⁴⁰ 579 awr yn 2019

⁴¹ 195 awr yn 2019

BBC Scotland	<p>Cwota ac anghenion mewn blwyddyn galendr</p> <ul style="list-style-type: none"> • amrywiaeth addas o raglenni, yn cynnwys rhaglenni newyddion sy'n cynnwys newyddion o bob rhan o'r Alban, neu'n adlewyrchu safbwynt Albanaidd; • bod o leiaf 90% o'r rhaglenni o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn cael eu cynhyrchu yn yr Alban; a • newyddion yn ystod Oriau Gwyllo Brig (212 awr yn 2019 a 250 awr wedi 2019) 	2.80
BBC One Wales	Cwota ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (275 awr) a rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion (65 awr) mewn Blwyddyn Ariannol	2.85
BBC One Wales a BBC Two Wales	Amrywiaeth o genres mewn rhaglenni sy'n adlewyrchu diwylliant Cymru	2.86
BBC Two Wales	Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion (175 awr)	2.87
BBC One Northern Ireland	Cwota ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (310 awr) a rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion (90 awr) mewn Blwyddyn Ariannol	2.91
BBC One Northern Ireland a BBC Two Northern Ireland	Amrywiaeth o genres mewn rhaglenni sy'n adlewyrchu diwylliant Gogledd Iwerddon	2.92
BBC Two Northern Ireland	Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion (60 awr)	2.93
BBC Two Northern Ireland	Rhaglenni Gwyddeleg a rhaglenni Gaeleg Ulster	2.94
BBC Four	Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer rhaglenni newydd am y celfyddydau a rhaglenni cerddoriaeth newydd (175 awr)	2.21
CBeebies	Darparu amrywiaeth o gynnwys sy'n cefnogi dysgu plant cyn-ysgol bob Blwyddyn Ariannol	2.22
CBBC	Newyddion yn achlysurol drwy gydol y dydd	2.6.1
CBBC	Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer newyddion (85 awr)	2.6.2
CBBC	Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer drama (1,000 awr)	2.23.1
CBBC	Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer rhaglenni ffeithiol (675 awr)	2.23.2
Sianel BBC News	Mwy o newyddion rhyngwladol a mwy o newyddion lleol/rhanbarthol na sianeli newyddion parhaus eraill yn y DU	2.7

BBC Parliament	Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer darpariaeth yng nghyswllt gweithgareddau Cynulliad Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon (300 awr)	2.70
BBC Alba	Cwota wythnosol ar gyfer rhaglenni gwreiddiol ar gyfer dysgwyr Gaeleg (5 awr)	2.24
BBC Alba	Rhaglenni newyddion byw gyda'r nos bob diwrnod gwaith, gan gynnwys yn ystod yr Oriau Brig, ac adolygiad newyddion estynedig ar benwythnosau	2.81
Radio 1	Newyddion, dau fwletin estynedig gydag un yn ystod yr Oriau Brig	2.8.1
Radio 1	Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer rhaglenni dogfen newydd (40)	2.25
1Xtra	Newyddion, dau fwletin estynedig	2.9.1
1Xtra	Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer nifer y rhaglenni dogfen (40)	2.26
Radio 2	Cwota wythnosol ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (17 awr, a 3 o'r rheini yn ystod yr Oriau Brig)	2.10.1
Radio 2	Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer rhaglenni am y celfyddydau (100 awr)	2.27.1
Radio 2	Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer rhaglenni dogfen (130 awr)	2.27.2
Radio 2	Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer allbwn crefyddol sy'n berthnasol i sawl ffydd wahanol (170 awr)	2.27.3
Radio 3	Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer cerddoriaeth fyw neu wedi'i recordio'n arbennig (45%)	2.28.1
Radio 3	Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer perfformiadau byw neu wedi'u recordio'n arbennig (440)	2.28.2
Radio 3	Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer comisiynu gweithiau cerddorol newydd (25)	2.28.3
Radio 3	Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer rhaglenni dogfen newydd am bynciau celfyddydol a diwylliannol (35)	2.28.4
Radio 4	Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (2,750 awr)	2.12.1
Radio 4	Darparu adroddiadau dyddiol ynghylch gweithgareddau Seneddol pan mae'r Senedd yn eistedd	2.12.2
Radio 4	Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer rhaglenni dogfen gwreiddiol sy'n ymdrin ag amrywiaeth helaeth o bynciau (375 awr)	2.29.1
Radio 4	Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer rhaglenni crefyddol gwreiddiol (200 awr) sy'n berthnasol i sawl ffydd wahanol.	2.29.2
BBC Radio 5 live	Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (75% o'r allbwn)	2.13.1
BBC Radio 5 live	Sylw helaeth i etholiadau (lleol, cyffredinol, a siambrau datganoledig y DU) yn ogystal â sylw rheolaidd ynghylch gwleidyddiaeth Ewrop a gwleidyddiaeth ryngwladol.	2.13.2
BBC 6 Music	Cwota wythnosol ar gyfer newyddion (6 awr)	2.14

<i>BBC 6 Music</i>	<i>Cwota wythnosol ar gyfartaledd ar draws bob Blwyddyn Ariannol ar gyfer un neu fwy o'r canlynol - nodweddion llafar, rhaglenni dogfen a thraethodau (10 awr)</i>	<i>2.30</i>
<i>BBC Asian Network</i>	<i>Cwota wythnosol ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (24 awr)</i>	<i>2.15</i>
<i>BBC Radio Scotland</i>	<i>Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer cynnwys llafar (60% yn ystod yr oriau craidd, 100% yn ystod oriau brig amser brecwast)</i>	<i>2.71</i>
<i>BBC Radio Scotland</i>	<i>Cwota wythnosol ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (50 awr)</i>	<i>2.82.1</i>
<i>BBC Radio Scotland</i>	<i>Nifer o wasanaethau eithrio rhanbarthol yn cael eu darparu bob diwrnod gwaith (sy'n cynnig newyddion, chwaraeon a gwybodaeth) yn ogystal â rhywfaint o raglenni cymunedol rhanbarthol gyda'r nos.</i>	<i>2.82.2</i>
<i>BBC Radio Scotland</i>	<i>Cynnwys a cherddoriaeth sy'n berthnasol i'r Alban yn benodol</i>	<i>2.82.3</i>
<i>BBC Radio nan Gàidheal</i>	<i>Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer cynnwys llafar (40% yn ystod yr oriau craidd, 100% yn ystod oriau brig amser brecwast)</i>	<i>2.71</i>
<i>BBC Radio nan Gàidheal</i>	<i>Cynnwys a cherddoriaeth sy'n berthnasol i'r Alban yn benodol</i>	<i>2.83.2</i>
<i>BBC Radio Wales</i>	<i>Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer cynnwys llafar (60% yn ystod yr oriau craidd, 100% yn ystod oriau brig amser brecwast)</i>	<i>2.71</i>
<i>BBC Radio Wales</i>	<i>Cwota wythnosol ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (32 awr)</i>	<i>2.88.1</i>
<i>BBC Radio Wales</i>	<i>Cynnwys a cherddoriaeth sy'n berthnasol i Gymru yn benodol</i>	<i>2.88.2</i>
<i>BBC Radio Cymru</i>	<i>Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer cynnwys llafar (60% yn ystod yr oriau craidd, 100% yn ystod oriau brig amser brecwast)</i>	<i>2.71</i>
<i>BBC Radio Cymru</i>	<i>Cwota wythnosol ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (23 awr)</i>	<i>2.89.1</i>
<i>BBC Radio Cymru</i>	<i>Cynnwys a cherddoriaeth sy'n berthnasol i Gymru yn benodol</i>	<i>2.89.2</i>
<i>BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle</i>	<i>Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer cynnwys llafar (60% yn ystod yr oriau craidd, 100% yn ystod oriau brig amser brecwast)</i>	<i>2.71</i>
<i>BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle</i>	<i>Cwota wythnosol ar gyfer newyddion a materion cyfoes (35 awr ar gyfer BBC Radio Ulster, 20 awr ar gyfer Radio Foyle)</i>	<i>(2.95.1 – 2.95.2)</i>
<i>BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle</i>	<i>Cynnwys a cherddoriaeth sy'n berthnasol i Ogledd Iwerddon yn benodol</i>	<i>2.95.3</i>

<i>BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle</i>	<i>Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer rhaglenni mewn ieithoedd brodorol lleiafrifol, gan gynnwys allbwn Gwyddeleg a Gaeleg Ulster (240 awr)</i>	<i>2.95.4</i>
<i>Radio Lleol BBC</i>	<i>Newyddion a gwybodaeth yn achlysurol drwy gydol y dydd, sy'n berthnasol i'r ardaloedd a'r cymunedau yn benodol, a chynnwys arall sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal ac i'r cymunedau</i>	<i>2.74</i>
<i>Radio Lleol BBC</i>	<i>Cwota wythnosol ar gyfer rhaglenni gwreiddiol wedi'u gwneud yn lleol (95 awr), gydag addasiadau mewn perthynas â BBC Radio Guernsey; BBC Radio Jersey a BBC Radio Somerset</i>	<i>2.75; 2.76</i>
<i>Pob gwasanaeth BBC Local Radio</i>	<i>Cwota Blwyddyn Ariannol ar gyfer cynnwys llafar (60% yn ystod yr oriau craidd, 100% yn ystod oriau brig amser brecwast)</i>	<i>2.71</i>
<i>BBC Ar-lein</i>	<i>Cynnwys sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc â'u haddysg ffurfiol ym mhob rhan o'r DU</i>	<i>2.31</i>

Diben (4): Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig drwy wneud hynny

Amrywiaeth, portreadu a chynrychioli cynulleidfaoedd

- 2.42 Mae'n rhaid i'r BBC roi adroddiad blynyddol i Ofcom ar sut mae Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn gyffredinol wedi adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig yn ystod y Flwyddyn Ariannol flaenorol. Yn benodol, mae'n rhaid i'r BBC ddangos sut mae wedi gwneud y canlynol:
- 2.42.1 ystyried yr ystod o gymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig. Dylai hyn gynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd a chred, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol a chefnidir economaidd-gymdeithasol;
 - 2.42.2 gwasanaethu a darparu cynnwys ar gyfer yr ystod o gymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig;
 - 2.42.3 cynrychioli cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig yn gywir;
 - 2.42.4 rhoi portread dilys o'r cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig;
 - 2.42.5 codi ymwybyddiaeth am wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau amgen y cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig.
- 2.43 Mae'n rhaid i'r BBC gyflwyno adroddiad blynyddol i Ofcom sy'n dangos i ba raddau mae'r BBC wedi dod yn ei flaen tuag at gyrraedd y targedau cynrychioli a/neu bortreadu ar sgrin ac ar yr awyr y mae wedi'u gosod.
- 2.44 Mae'n rhaid i'r BBC fesur boddhad cynulleidfaoedd yn ystod y Flwyddyn Ariannol flaenorol o ran adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol ym mhob cwr o'r DU ar draws Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, ac adrodd ar hynny i Ofcom bob blwyddyn gan roi sylw penodol i gynnwys sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf ym mhob genre. Rhaid i hyn gynnwys boddhad cynulleidfaoedd yn y meysydd canlynol:
- 2.44.1 sut mae'r BBC yn cynrychioli, yn portreadu ac yn gwasanaethu cynulleidfaoedd amrywiol;
 - 2.44.2 sut mae'r BBC yn adlewyrchu poblogaeth gyfan y Deyrnas Unedig ar sgrin ac ar yr awyr, gan roi sylw penodol i gynnwys sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf ym mhob genre; a
 - 2.44.3 sut mae'r BBC yn codi ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau.
- 2.45 Os bydd mesuriad y BBC o foddhad cynulleidfaoedd yn unol ag amod 2.44 yn awgrymu bod carfan benodol o'r gynulleidfa yn anfodlon â pherfformiad y BBC yn y meysydd hyn mewn unrhyw Flwyddyn Ariannol, mae'n rhaid i'r BBC:
- 2.45.1 yn unol ag amod 2.44, nodi yn ei adroddiad ar gyfer y Flwyddyn Ariannol honno'r camau y bydd rhaid eu cymryd i geisio gwella boddhad cynulleidfaoedd ymysg y carfannau penodol hynny o'r gynulleidfa; ac

- 2.45.2 yn unol ag amod 2.44, nodi yn ei adroddiad ar gyfer y Flwyddyn Ariannol ganlynol y camau a gymerwyd a'u heffaith ar foddhad cynulleidfaoedd mewn perthynas â'r carfannau penodol hynny o'r gynulleidfa.
- 2.46 Erbyn 1 Ebrill 2018 mae'n rhaid i'r BBC lunio cod ymarfer, a fydd yn cael ei gymeradwyo gan Ofcom, a chydymffurfio â'r cod hwnnw. Bydd y cod yn nodi'r camau y bydd y BBC yn eu cymryd wrth gomisiynu cynnwys ar draws pob genre er mwyn sicrhau bod cynnwys o'r fath yn adlewyrchu ac yn cynrychioli cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig yn gywir ac yn eu portreadu mewn ffordd ddilys. Mae'n rhaid i'r cod ymarfer gynnwys rhaglenni comisiwn sy'n cael eu cynhyrchu'n fewnol gan y BBC a rhaglenni comisiwn sy'n cael eu cynhyrchu'n allanol.
- 2.47 Yn benodol, mae'n rhaid i'r cod ymarfer nodi'r camau y bydd y BBC yn eu cymryd wrth gomisiynu cynnwys mewn perthynas â:
- 2.47.1 portreadu ar y sgrin a chastio;
- 2.47.2 amrywiaeth gweithlu'r timau cynhyrchu a gomisiynir; a'r
- 2.47.3 broses penderfyniadau cynhyrchu a chomisiynu.
- 2.48 Mae'n rhaid i'r BBC fonitro ei fod yn cydymffurfio â'r cod ymarfer a rhaid iddo gyflwyno adroddiad blynyddol i Ofcom ar ei gydymffurfiaid â'r cod ymarfer yn ystod y Flwyddyn Ariannol flaenorol.
- 2.49 Caiff Ofcom wneud y canlynol unrhyw bryd, drwy hysbysu'r BBC yn ysgrifenedig:
- 2.49.1 cymeradwyo addasiadau i god cymeradwy pan fydd Ofcom o'r farn y byddai'r cod fel y'i diwygiwyd yn diwallu'r amcanion sydd wedi'u nodi yn amod 2.46; neu
- 2.49.2 rhoi'r gorau i gymeradwyo cod pan fydd Ofcom yn credu nad ydy'r cod yn diwallu'r amcanion a nodir yn amod 2.46.
- 2.50 Mae'n rhaid i'r BBC fonitro ac adrodd i Ofcom bob blwyddyn ar amrywiaeth holl staff (cyflogeion a gweithwyr llawrydd) y BBC sy'n cael eu cyflogi mewn perthynas â darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU.⁴² Rhaid i'r adroddiad fod ar ffurf a bennir gan Ofcom a rhaid iddo gynnwys yr wybodaeth ganlynol:
- 2.50.1 nifer y staff o'r fath yn ôl oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd a chred, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol a chefnidir economaidd-gymdeithasol;
- 2.50.2 lefel swydd staff o'r fath yn ôl y categorïau canlynol: aelodau Bwrdd ac anweithredol; uwch reolwyr; rheolwyr canol/iau a'r rheini sydd ddim yn rheolwyr;
- 2.50.3 math o swydd staff o'r fath yn ôl y categorïau canlynol: rhaglenni; comisiynu; technegol/peirianeg; gwerthu/marchnata; a swyddogaethau cymorth/gweinyddol;
- 2.50.4 y graddau y mae'r BBC wedi dod yn ei flaen tuag at gyrraedd ei dargedau amrywiaeth y gweithlu.

⁴² Nid ydy Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU yn cynnwys y World Service na gwasanaethau masnachol y BBC (edrychwch ar y diffiniad o "Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU" yn Atodlen 2 y Drwydded hon).

- 2.51 Nid oes dim byd yn amod 2.50 yn mynnu bod y BBC yn darparu unrhyw wybodaeth i Ofcom pan fyddai darparu gwybodaeth o'r fath yn torri deddfwriaeth diogelu data perthnasol.
- 2.52 Caiff Ofcom gyhoeddi unrhyw adroddiad a ddarperir gan y BBC o dan amod 2.42, 2.43, 2.44, 2.48 neu 2.50.

Creu rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau: rhaglenni rhwydwaith

- 2.52A At ddibenion amodau 2.53-2.63, bydd oriau a gwariant ar raglenni rhwydwaith a gynhyrchwyd ar gyfer BBC Alba a BBC Scotland yn cael pwysoliad o sero.

Y Deyrnas Unedig (y tu allan i Ardal yr M25)

2.53 Yn ystod pob Blwyddyn Galendr, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

- 2.53.1 bod o leiaf 50% o oriau'r Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud y tu allan i Ardal yr M25;
- 2.53.2 bod y Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig y tu allan i Ardal yr M25 (gyda'i gilydd) yn cynrychioli ystod briodol o raglenni; a
- 2.53.3 bod o leiaf 50% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cynrychioli rhaglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu y tu allan i Ardal yr M25.

Lloegr (y tu allan i Ardal yr M25)

2.50.4.1 Mae'n rhaid i'r BBC sicrhau'r canlynol:

- 2.54.1 bod o leiaf 30% o oriau y Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yn Lloegr (y tu allan i Ardal yr M25) ym mhob Blwyddyn Galendr;
- 2.54.2 tan 31 Rhagfyr 2019, bod o leiaf 28% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cynrychioli rhaglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu yn Lloegr (y tu allan i Ardal yr M25) ym mhob Blwyddyn Galendr; ac
- 2.54.3 o 1 Ionawr 2020 ymlaen, bod o leiaf 30% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cynrychioli rhaglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu yn Lloegr (y tu allan i Ardal yr M25) ym mhob Blwyddyn Galendr.
- 2.55 Caiff y BBC ofyn yn ysgrifenedig bod canran yr oriau o Raglenni Rhwydwaith a bennir yn amod 2.54 yn cael ei chwtdogi mewn perthynas â Blwyddyn Galendr benodol. Bydd Ofcom yn ystyried unrhyw gais o'r fath a gall gytuno ar gais pan fydd hi'n ymddangos i Ofcom yn

amgylchiadau penodol yr achos y byddai'r gostyngiad yn sicrhau cyfran addas o Raglenni Rhwydwaith.⁴³

Yr Alban

2.56 Yn ystod pob Blwyddyn Galendr, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.56.1 bod o leiaf 8% o oriau'r Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yn yr Alban; a

2.56.2 bod o leiaf 8% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cynrychioli rhaglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu yn yr Alban.

2.57 Caiff y BBC ofyn yn ysgrifenedig bod canran yr oriau o Raglenni Rhwydwaith a bennir yn amod 2.56.1 yn cael ei chwtdogi mewn perthynas â Blwyddyn Galendr benodol. Bydd Ofcom yn ystyried unrhyw gais o'r fath a gall gytuno ar gais pan fydd hi'n ymddangos i Ofcom yn amgylchiadau penodol yr achos y byddai'r gostyngiad yn sicrhau cyfran addas o Raglenni Rhwydwaith.⁴⁴

Cymru

2.58 Mae'n rhaid i'r BBC sicrhau'r canlynol:

2.58.1 tan 31 Rhagfyr 2021, bod o leiaf 4% o oriau'r Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yng Nghymru ym mhob Blwyddyn Galendr;

2.58.2 o 1 Ionawr 2022 ymlaen, bod o leiaf 5% o oriau'r Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yng Nghymru ym mhob Blwyddyn Galendr; a

2.58.3 bod o leiaf 5% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cynrychioli rhaglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu yng Nghymru ym mhob Blwyddyn Galendr.

2.59 Caiff y BBC ofyn yn ysgrifenedig bod canran yr oriau o Raglenni Rhwydwaith a bennir yn amod 2.58.1 neu 2.58.2 yn cael ei chwtdogi mewn perthynas â Blwyddyn Galendr benodol. Bydd Ofcom yn ystyried unrhyw gais o'r fath a gall gytuno ar gais pan fydd hi'n ymddangos

⁴³ Dim ond er mwyn dangos hyn, un enghraifft o pryd gallai'r BBC fod eisiau gwneud cais o'r fath fyddai petai'n cynnig mewn un flwyddyn benodol comisiynu rhaglen ddrama ddud i'w gwneud yn Lloegr (y tu allan i Ardal yr M25) ond byddai'r cynnig yn golygu na fyddai'r BBC yn gallu cyflawni'r ganran a bennwyd o oriau yn Lloegr (y tu allan i Ardal yr M25) ar gyfer y flwyddyn honno.

⁴⁴ Dim ond er mwyn dangos hyn, un enghraifft o pryd gallai'r BBC fod eisiau gwneud cais o'r fath fyddai petai'n cynnig mewn un flwyddyn benodol comisiynu rhaglen ddrama ddud i'w gwneud yn yr Alban ond byddai'r cynnig yn golygu na fyddai'r BBC yn gallu cyflawni'r ganran a bennwyd o oriau yn yr Alban ar gyfer y flwyddyn honno.

i Ofcom yn amgylchiadau penodol yr achos y byddai'r gostyngiad yn sicrhau cyfran addas o Raglenni Rhwydwaith.⁴⁵

Gogledd Iwerddon

2.60 Mae'n rhaid i'r BBC sicrhau'r canlynol:

2.60.1 tan 31 Rhagfyr 2021, bod o leiaf 2% o oriau'r Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yng Ngogledd Iwerddon ym mhob Blwyddyn Galendr;

2.60.2 o 1 Ionawr 2022 bod o leiaf 3% o oriau'r Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yng Ngogledd Iwerddon ym mhob Blwyddyn Galendr; a

2.60.3 bod o leiaf 3% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cynrychioli rhaglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu yng Ngogledd Iwerddon ym mhob Blwyddyn Galendr.

2.61 Caiff y BBC ofyn yn ysgrifenedig bod canran yr oriau o Raglenni Rhwydwaith a bennir yn amod 2.60.1 neu 2.60.2 yn cael ei chwtogi mewn perthynas â Blwyddyn Galendr benodol. Bydd Ofcom yn ystyried unrhyw gais o'r fath a gall gytuno ar gais pan fydd hi'n ymddangos i Ofcom yn amgylchiadau penodol yr achos y byddai'r gostyngiad yn sicrhau cyfran addas o Raglenni Rhwydwaith.⁴⁶

Canolfannau cynhyrchu

2.62 Mae'r gwahanol ganolfannau cynhyrchu y mae'r Gwariant y cyfeirir ato yn amodau 2.53, 2.54, 2.56, 2.58 a 2.60 yn cyfeirio atynt, yn gorfod cynrychioli ystod addas o ganolfannau cynhyrchu o'r fath.

Arweiniad

2.63 Wrth gydymffurfio ag amodau 2.53 i 2.60, rhaid i'r BBC ystyried unrhyw arweiniad y mae modd i Ofcom ei gyhoeddi.

Creu rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau: gwasanaethau radio

2.64 Mewn perthynas â Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU sydd wedi cael eu dylunio ar gyfer cynulleidfaoedd ledled y DU⁴⁷, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf traean o'r

⁴⁵ Dim ond er mwyn dangos hyn, un enghraifft o pryd gallai'r BBC fod eisiau gwneud cais o'r fath fyddai petai'n cynnig mewn un flwyddyn benodol comisiynu rhaglen ddrama ddrud i'w gwneud yng Nghymru ond byddai'r cynnig yn golygu na fyddai'r BBC yn gallu cyflawni'r ganran a bennwyd o oriau yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn honno.

⁴⁶ Dim ond er mwyn dangos hyn, gallai un enghraifft o pryd gallai'r BBC fod eisiau gwneud cais o'r fath petai'n cynnig mewn un flwyddyn benodol comisiynu rhaglen ddrama ddrud i'w gwneud yng Ngogledd Iwerddon ond byddai'r cynnig yn golygu na fyddai'r BBC yn gallu cyflawni'r ganran a bennwyd o oriau yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer y flwyddyn honno.

⁴⁷ Radio 1; 1Xtra; Radio 2; Radio 3; Radio 4; BBC 4 Extra; BBC Radio 5 live; BBC Radio 5 live sports extra; BBC 6 Music; BBC Asian Network.

gwariant perthnasol yn cael ei wario y tu allan i Ardal yr M25 bob Blwyddyn Ariannol. At ddibenion y gofyniad hwn mae “gwariant perthnasol” yn golygu gwariant ar gynhyrchu rhaglenni (heb gynnwys gwariant ar gostau sydd wedi’u cyllido’n ganolog).

2.65 Er mwyn diwallu'r gofyniad yn amod 2.64, mae’n rhaid i’r BBC sicrhau bod rhywfaint o’r gwariant perthnasol yn cael ei wario mewn perthynas â phob un o’r gwasanaethau radio canlynol:

2.65.1 Radio 1;

2.65.2 Radio 2;

2.65.3 Radio 3;

2.65.4 Radio 4;

2.65.5 BBC Radio 5 live.

2.66 Mewn perthynas â **Radio 3**, mae’n rhaid i’r BBC sicrhau bod o leiaf 40% o’r gwariant perthnasol yn cael ei wario y tu allan i Ardal yr M25 bob Blwyddyn Ariannol. At ddibenion y gofyniad hwn, mae “gwariant perthnasol” yn golygu gwariant ar gynhyrchu rhaglenni (heb gynnwys gwariant ar gostau wedi’u hariannu’n ganolog) a dyraniad Radio 3 o’r cymhorthdal i’r cerddorfeydd canolog.

Rhaglenni yn y gwledydd a’r rhanbarthau

2.67 Mewn perthynas â **BBC One** a **BBC Two** gyda’i gilydd, mae’n rhaid i’r BBC sicrhau’r canlynol:

2.67.1 yn y Flwyddyn Galendr 2019, bod o leiaf 5,969 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol;

2.67.2 ymhob Blwyddyn Galendr wedi 2019, bod o leiaf 5,909 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol;

2.67.3 bod y rhaglenni hynny’n cynnwys ystod briodol o raglenni (gan gynnwys rhaglenni newyddion ranbarthol);

2.67.4 bod o leiaf 95% o'r rhaglenni hynny’n cynnwys rhaglenni sydd wedi’u gwneud mewn gwlad neu ranbarth sy’n gysylltiedig â’r rhaglenni a fydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol;

2.67.5 yn y Flwyddyn Galendr 2019 bod o leiaf 579 awr o’r rhaglenni hynny’n cynnwys rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion yn ystod yr Oriau Gwyllo Brig; a

2.67.6 ymhob Blwyddyn Galendr wedi 2019, bod o leiaf 557 awr o’r rhaglenni hynny’n cynnwys rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion yn ystod yr Oriau Gwyllo Brig; a

2.67.7 yn y Flwyddyn Galendr 2019, bod o leiaf 195 awr o’r rhaglenni hyn yn cynnwys rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion sy’n cael eu darlledu yn syth cyn neu ar ôl yr Oriau Gwyllo Brig.

- 2.67.8 Ymhob Blwyddyn Galendr wedi 2019, bod o leiaf 179 awr o'r rhaglenni hyn yn cynnwys rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion sy'n cael eu darlledu yn syth cyn neu ar ôl yr Oriau Gwyllo Brig.
- 2.68 Mae'n rhaid i'r BBC sicrhau yn ystod bob Blwyddyn Galendr, bod yr amser sydd wedi'i neilltuo ar gyfer rhaglenni o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol yn unol ag amod 2.67, yn cynnwys o leiaf 4,300 awr o newyddion sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol yn achlysurol drwy gydol y dydd ar **BBC One**, a rhaid i o leiaf 2,100 o'r rheini fod yn ystod yr Oriau Gwyllo Brig.
- 2.69 Wrth gydymffurfio ag amodau 2.67 a 2.68, rhaid i'r BBC ystyried unrhyw arweiniad y mae modd i Ofcom ei gyhoeddi.
- 2.70 Mewn perthynas â **BBC Parliament**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 300 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni ynghylch gweithgareddau Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Chynulliad Cymru ym mhob Blwyddyn Ariannol.
- 2.71 Mewn perthynas â phob **Gwasanaeth Radio Cyhoeddus y DU** a bennir yn amod 2.72, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod cyfran y cynnwys sy'n gynnwys llafar ar y gwasanaeth hwnnw yn diwallu'r amodau canlynol ym mhob Blwyddyn Ariannol:
- 2.71.1 bod o leiaf 60% ar gyfartaledd yn ystod yr oriau craidd; heblaw am BBC Radio nan Gàidheal lle bydd rhaid i'r BBC sicrhau bod cyfran y cynnwys sy'n gynnwys llais o leiaf 40% ar gyfartaledd yn ystod yr oriau craidd; a
- 2.71.2 bod 100% yn ystod yr oriau brig amser brecwast.
- 2.72 Mae'r Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU canlynol wedi'u nodi at ddibenion amod 2.71:
- 2.72.1 pob gwasanaeth BBC Local Radio;
- 2.72.2 BBC Radio Scotland;
- 2.72.3 BBC Radio nan Gàidheal;
- 2.72.4 BBC Radio Wales;
- 2.72.5 BBC Radio Cymru;
- 2.72.6 BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle.
- 2.73 Yn amod 2.71 mae "oriau craidd" yn golygu rhwng 06:00 a 19:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac mae "oriau brig amser brecwast" yn golygu rhwng 07:00 a 08:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac o ran BBC Radio nan Gàidheal, 07:30 to 19.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener; ac mae "oriau brig amser brecwast" yn golygu 07.00 i 08.30 o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Lloegr⁴⁸

2.74 Mewn perthynas â phob gorsaf **BBC Local Radio**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.74.1 bod newyddion a gwybodaeth berthnasol i'r ardaloedd a'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu yn benodol yn cael eu darparu yn rheolaidd drwy gydol y dydd; a

2.74.2 bod cynnwys arall perthnasol i'r ardaloedd a'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu yn benodol yn cael ei ddarparu.

2.75 Mewn perthynas â **BBC Local Radio**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 95 awr bob wythnos yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni gwreiddiol sydd wedi'u creu'n lleol ar bob gorsaf BBC Local Radio. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni gwreiddiol wedi'u gwneud yn lleol" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu rhannu rhwng gorsafoedd cyfagos ac yn cael eu darlledu rhwng 06:00 a 19:00.

2.76 Mae'r gofyniad yn amod 2.75 yn berthnasol i'r gorsafoedd radio BBC Local Radio canlynol, a'r amser a nodir yn y maes cyfatebol yw'r gofyniad lleiaf o ran rhaglenni gwreiddiol wedi'u gwneud yn lleol.

Gorsaf BBC Local Radio	Gofyniad lleiaf ar gyfer rhaglenni gwreiddiol wedi'u gwneud yn lleol
BBC Radio Guernsey	80 awr
BBC Radio Jersey	80 awr
BBC Radio Somerset	70 wr

2.77 Mewn perthynas â **BBC Ar-lein**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.77.1 ei fod yn darparu newyddion a gwybodaeth ar gyfer rhanbarthau Lloegr; ac

2.77.2 ei fod yn darparu sylw arbennig i chwaraeon ar gyfer rhanbarthau Lloegr.

Yr Alban

2.78 Mewn perthynas â **BBC One Scotland**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ym mhob Blwyddyn Ariannol:

2.78.1 bod o leiaf 290 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes; a

2.78.2 bod o leiaf 155 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni heb fod yn newyddion. At ddibenion y gofyniad hwn, nid yw "rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a rhaglenni sy'n cael eu prynu, ac nid yw'n cynnwys rhaglenni materion cyfoes.

⁴⁸ Mae BBC Local Radio ar gyfer Ynysoedd y Sianel wedi cael ei gynnwys o dan yr amodau hyn.

- 2.79 Mewn perthynas â **BBC One Scotland** a **BBC Two Scotland** gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant yr Alban yn ei raglenni.
- 2.80 Mewn perthynas â **BBC Scotland**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
- 2.80.1 ei fod yn darparu amrywiaeth o genres yn ei raglenni sy'n adlewyrchu diwylliant yr Alban;
 - 2.80.2 ymhob Blwyddyn Galendr, ei fod yn darparu amrywiaeth addas o raglenni, yn cynnwys rhaglenni newyddion sy'n cynnwys newyddion o bob rhan o'r Alban neu sy'n adlewyrchu safbwynt Albanaidd;
 - 2.80.3 ymhob Blwyddyn Galendr bod o leiaf 90% o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu darllediad cyntaf (fel a ddiffinir yn amod 2.37.1) yn cael eu cynhyrchu'n yr Alban;
 - 2.80.4 yn y Flwyddyn Galendr 2019, bod o leiaf 212 awr yn cael eu dyrannu i newyddion yn ystod Oriau Gwyllo Brig; a
 - 2.80.5 ymhob Blwyddyn Galendr wedi 2019, bod o leiaf 250 awr yn cael eu dyrannu i newyddion yn ystod Oriau Gwyllo Brig;
- 2.81 Mewn perthynas â **BBC Alba**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod y gwasanaeth yn cynnwys rhaglenni newyddion byw gyda'r nos bob diwrnod gwaith, gan gynnwys yn ystod yr Oriau Gwyllo Brig, yn ogystal ag adolygiad estynedig o'r newyddion ar benwythnosau.
- 2.82 Mewn perthynas â **BBC Radio Scotland**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
- 2.82.1 bod o leiaf 50 awr yn cael eu neilltuo bob wythnos ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau);
 - 2.82.2 bod nifer o wasanaethau eithrio rhanbarthol yn cael eu darparu bob diwrnod gwaith, sy'n cynnig newyddion, chwaraeon a gwybodaeth, yn ogystal â rhywfaint o raglenni cymunedol rhanbarthol gyda'r nos; a
 - 2.82.3 bod cynnwys a cherddoriaeth sy'n berthnasol i'r Alban yn benodol yn cael eu darparu.
- 2.83 Mewn perthynas â **BBC Radio nan Gàidheal**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
- 2.83.1 ei fod yn cynnwys newyddion yn gyson yn ystod y dydd, yn enwedig rhwng 07:30 a 08:30, a rhwng 16:00 a 19:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 09:00 ac 11:00 ar ddydd Sadwrn a dydd Sul; a
 - 2.83.2 bod cynnwys a cherddoriaeth sy'n berthnasol i'r Alban yn benodol yn cael eu darparu.
- 2.84 Mewn perthynas â **BBC Ar-lein**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
- 2.84.1 ei fod yn darparu newyddion a gwybodaeth i'r Alban
 - 2.84.2 bod cynnwys Gaeleg yn cael ei ddarparu; a
 - 2.84.3 bod darpariaeth chwaraeon penodol i'r Alban yn cael ei darparu.

Cymru

- 2.85 Mewn perthynas â **BBC One Wales**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ym mhob blwyddyn Ariannol:
- 2.85.1 bod o leiaf 275 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes; a
 - 2.85.2 bod o leiaf 65 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni heb fod yn newyddion. At ddibenion y gofyniad hwn, nid yw "rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a rhaglenni sy'n cael eu prynu, ac nid yw'n cynnwys rhaglenni materion cyfoes.
- 2.86 Mewn perthynas â **BBC One Wales** a **BBC Two Wales** gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant Cymru yn ei raglenni.
- 2.87 Mewn perthynas â **BBC Two Wales**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 175 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni heb fod yn newyddion ym mhob Blwyddyn Ariannol. At ddibenion y gofyniad hwn, nid yw "rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a rhaglenni sy'n cael eu prynu, ac nid yw'n cynnwys rhaglenni materion cyfoes.
- 2.88 Mewn perthynas â **BBC Radio Wales**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
- 2.88.1 bod o leiaf 32 awr yn cael eu neilltuo bob wythnos ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau a rhaglenni sy'n cael eu prynu); a
 - 2.88.2 bod cynnwys a cherddoriaeth sy'n berthnasol i Gymru yn benodol yn cael eu darparu.
- 2.89 Mewn perthynas â **BBC Radio Cymru**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
- 2.89.1 bod o leiaf 23 awr yn cael eu neilltuo bob wythnos ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau); a
 - 2.89.2 bod cynnwys a cherddoriaeth sy'n berthnasol i Gymru yn benodol yn cael eu darparu.
- 2.90 Mewn perthynas â **BBC Ar-lein**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
- 2.90.1 ei fod yn darparu newyddion a gwybodaeth i Gymru;
 - 2.90.2 bod cynnwys yn cael ei ddarparu yn y Gymraeg; a
 - 2.90.3 bod darpariaeth chwaraeon penodol i Gymru yn cael ei darparu.

Gogledd Iwerddon

- 2.91 Mewn perthynas â **BBC Northern Ireland**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ym mhob Blwyddyn Ariannol:
- 2.91.1 bod o leiaf 310 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes; a

- 2.91.2 bod o leiaf 90 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni heb fod yn newyddion. At ddibenion y gofyniad hwn, nid yw “rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion” yn cynnwys rhaglenni sy’n cael eu hailddarlledu a rhaglenni sy’n cael eu prynu, ac nid yw’n cynnwys rhaglenni materion cyfoes.
- 2.92 Mewn perthynas â **BBC One Northern Ireland** a **BBC Two Northern Ireland** gyda’i gilydd, mae’n rhaid i’r BBC sicrhau ei fod yn darparu amrywiaeth o genres sy’n adlewyrchu diwylliant Gogledd Iwerddon yn ei raglenni.
- 2.93 Mewn perthynas â **BBC Two Northern Ireland**, mae’n rhaid i’r BBC sicrhau bod o leiaf 60 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni heb fod yn newyddion ym mhob Blwyddyn Ariannol. At ddibenion y gofyniad hwn, nid yw “rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion” yn cynnwys rhaglenni sy’n cael eu hailddarlledu a rhaglenni sy’n cael eu prynu, ac nid yw’n cynnwys rhaglenni materion cyfoes.
- 2.94 Mewn perthynas â **BBC Two Northern Ireland**, mae’n rhaid i’r BBC sicrhau ei fod yn darparu rhaglenni Gwyddeleg a rhaglenni Gaeleg Ulster.
- 2.95 Mewn perthynas â **BBC Radio Ulster** a **BBC Radio Foyle**, mae’n rhaid i'r BBC sicrhau:
- 2.95.1 bod o leiaf 35 awr yn cael eu neilltuo bob wythnos ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau) ar Radio Ulster;
- 2.95.2 bod o leiaf 20 awr yn cael eu neilltuo bob wythnos ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau) ar Radio Foyle;
- 2.95.3 bod cynnwys a cherddoriaeth sy’n berthnasol i Ogledd Iwerddon yn benodol yn cael eu darparu; a
- 2.95.4 bod o leiaf 240 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni mewn ieithoedd brodorol lleiafrifol, gan gynnwys allbwn Gwyddeleg a Gaeleg Ulster, bob Blwyddyn Ariannol. At ddibenion y gofyniad hwn, mae “rhaglenni mewn ieithoedd brodorol lleiafrifol” yn cynnwys rhaglenni sy’n cael eu hailddarlledu a rhaglenni sy’n cael eu prynu.
- 2.96 Mewn perthynas â **BBC Ar-lein**, mae’n rhaid i’r BBC sicrhau:
- 2.96.1 ei fod yn darparu newyddion a gwybodaeth i Ogledd Iwerddon;
- 2.96.2 bod cynnwys Gwyddeleg a Gaeleg Ulster yn cael ei ddarparu; a
- 2.96.3 bod darpariaeth chwaraeon penodol ar gyfer Gogledd Iwerddon yn cael ei darparu.

Atodlen 2

Diffiniadau a dehongliadau

3.1 Yn y Drwydded hon, oni bai fod y cyd-destun yn nodi'n wahanol:

Mae'r "**Cytundeb**" yn golygu'r cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a'r BBC a wnaed ar 7 Rhagfyr 2016;

Mae'r "**BBC**" yn golygu'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig;

"**BBC One Northern Ireland**" ydy fersiwn Gogledd Iwerddon o BBC One;

"**BBC One Scotland**" ydy fersiwn yr Alban o BBC One;

"**BBC One Wales**" ydy fersiwn Cymru o BBC One;

"**BBC Two Northern Ireland**" ydy fersiwn Gogledd Iwerddon o BBC Two;

"**BBC Two Scotland**" ydy fersiwn yr Alban o BBC Two;

"**BBC Two Wales**" ydy fersiwn Cymru o BBC Two;

Mae "**Blwyddyn Galendr**" yn golygu cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 1 Ionawr, â'r cyntaf o'r rheini'n cychwyn ar 1 Ionawr 2018;

Mae'r "**Siarter**" yn golygu'r Siarter Brenhinol ynghylch parhad y BBC ar gyfer y cyfnod sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2027;

Mae "**yn ystod y Dydd**" yn golygu:

- (a) rhwng 06:00 a 18:00 mewn perthynas â Gwasanaeth Teledu Cyhoeddus y DU;
- (b) rhwng 06:00 a 19:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 08:00 a 14:00 ar ddydd Sadwrn a dydd Sul mewn perthynas â Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU;

Mae "**Gwariant**" mewn cysylltiad â rhaglen yn golygu:

- (a) gwariant sy'n cael ei ystyried yn fuddsoddiad mewn rhaglen neu wariant y mae modd ei briodoli i'r gwaith o wneud rhaglen; neu
- (b) gwariant ar gomisiynu neu brynu rhaglen, neu brynu hawl i gynnwys rhaglen mewn gwasanaeth neu ei darlledu;

Mae "**Cyfnod y Drwydded**" yn golygu'r cyfnod rhwng 1 Ionawr 2018 a 31 Rhagfyr 2027;

Mae "**Ardal yr M25**" yn golygu'r ardal y tu allan i ffin y Draffordd sy'n Amgylchynu Llundain (yr M25);

Mae'r "**Genhadaeth**" yn golygu dibenion cyhoeddus y BBC fel y nodir yn Erthygl 5 y Siarter;

Mae **“Rhaglenni Rhwydwaith”** yn golygu rhaglenni sydd wedi’u creu er mwyn eu gwyllo ar Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU, ac eithrio rhaglenni sydd wedi’u gwneud i’w gwyllo ar amrywiad o wasanaeth sy’n berthnasol i un o’r canlynol yn unig: (a) Gogledd Iwerddon; (b) Yr Alban; (c) Cymru; (d) unrhyw ranbarth yn Lloegr;

Mae **“Cerddoriaeth Newydd”** yn golygu cerddoriaeth sydd naill ai heb gael ei rhyddhau neu a gafodd ei rhyddhau lai na mis yn ôl (rhyddhau ffisegol nid rhyddhau i lwytho i lawr);

Mae **“Ofcom”** yn golygu’r Swyddfa Gyfathrebiadau a sefydlwyd yn unol â Deddf Gyfathrebiadau 2002;

Mae **“Oriau Gwranddo Brig”** yn golygu rhwng 06:00 a 10:00, a rhwng 16:00 a 19:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 07:00 ac 11:00 ar ddydd Sadwrn a dydd Sul;

Mae **“Oriau Gwyllo Brig”** yn golygu;

- (a) 18:00 i 22:30 mewn perthynas â’r holl Wasanaethau Teledu Cyhoeddus yn y DU ac eithrio BBC Four;
- (b) 19:00 i 24:00 mewn perthynas â BBC Four;

Mae **“Gŵyl Gyhoeddus”** yn golygu Diwrnod Nadolig, Dydd Gwener y Grogolith, neu ŵyl y banc o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971;

Mae **“Dibenion Cyhoeddus”** yn golygu dibenion cyhoeddus y BBC fel y nodir yn Erthygl 6 y Siarter;

Mae **“Amodau Rheoleiddio”** yn golygu’r amodau rheoleiddio yn Atodlen 1 y Drwydded hon, a gaiff eu diwygio gan Ofcom o bryd i’w gilydd;

Mae **“Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU”** yn golygu’r Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU sy’n cynnwys gwasanaethau rhaglenni radio, ac mae **“Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU”** yn golygu unrhyw un o’r gwasanaethau hynny;

Mae **“Gwasanaethau Cyhoeddus y DU”** yn golygu’r gwasanaethau sydd wedi’u cynnwys ar y rhestr a gyhoeddwyd gan y BBC yn unol â Rhan 1 o Atodlen 1 y Cytundeb, a bydd yn cael ei haddasu gan y BBC o bryd i’w gilydd;

Mae **“Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU”** yn golygu’r Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU sy’n cynnwys gwasanaethau rhaglenni teledu, ac mae **“Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU”** yn golygu unrhyw un o’r gwasanaethau hynny;

Mae **“Blwyddyn Ariannol”** yn golygu cyfnod o 12 mis sy’n dechrau ar 1 Ebrill, a’r cyntaf o’r rheini’n cychwyn ar 1 Ebrill 2018.

3.2 Mae ystyr y termau yn y Drwydded hon yr un fath yn y Siarter a’r Cytundeb, oni bai fod y cyd-destun yn nodi fel arall.

3.3 Mae geiriau gwrywaidd yn cyfeirio at y benywaidd ac fel arall.

- 3.4 Mae geiriau unigol yn cyfeirio at y lluosog.
- 3.5 Dylid darllen cyfeiriadau at ddeddfwriaeth benodol gan gymryd yn ganiataol y bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei diwygio neu ei haildeddfu o bryd i'w gilydd.
- 3.6 Gwneud pethau'n haws yw bwriad y penawdau ac nid ydynt yn rhan o'r Amodau Rheoleiddio.
- 3.7 Lle mae unrhyw amod o'r Drwydded hon yn gosod cwota ar gyfer gwariant, bydd gwariant ar gynnwys rhaglenni wedi'i gomisiynu ar y cyd, yn cael ei ddyrannu i wasanaeth yn ôl y canran y cyfraniad y gwnaeth i'r cyfanswm gwariant.
- 3.8 (a) Yn unol â (b) isod, ar gyfer y cwotau a fesurwyd mewn oriau yn amodau 2.33 i 2.36 a 2.53 i 2.60 o'r Drwydded, bydd oriau o gynnwys wedi'i gomisiynu ar y cyd yn cael ei ddyrannu i'r gwasanaeth lle wnaeth y rhaglen ymddangos am y tro cyntaf.
- (b) Lle mae oriau cynnwys wedi'u comisiynu ar y cyd rhwng Sianel BBC Scotland ac unrhyw Wasanaeth(au) Teledu Cyhoeddus arall yn y DU, ar gyfer cwotau wedi'u mesur mewn oriau yn amodau 2.53 i 2.60, bydd modd dyrannu oriau'r cynnwys a gomisiynwyd ar y cyd i'r Gwasanaeth(au) Teledu Cyhoeddus heblaw am y Sianel BBC Scotland lle dangoswyd y rhaglen am y tro cyntaf, hyd yn oed os ydy'r cynnwys yn cael ei ddangos ar Sianel BBC Scotland yn gyntaf.

Gwasanaethau Cyhoeddus y DU

4.1 Mae'r Drwydded yn berthnasol i Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU. Dyma'r gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr a gyhoeddwyd gan y BBC yn unol â Rhan 1 o Atodlen 1 y Cytundeb, a bydd yn cael ei haddasu gan y BBC o bryd i'w gilydd. Gallai newid Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn sylweddol olygu y byddai angen diwygio'r rhestr.

4.2 Mae'r Cytundeb yn nodi'r rhestr o Wasanaethau Cyhoeddus cyfredol yn y DU⁴⁹. Rydyn ni wedi atgynhyrchu'r rhestr honno yma i'w gwneud yn haws cyfeirio ati:

(1) Gwasanaethau teledu wedi'u llunio ar gyfer cynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig:

- (a) BBC One: sianel genres cymysg, â fersiynau ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac amrywiadau ar gyfer rhanbarthau o Loegr ac Ynysoedd y Sianel, sy'n darparu amrywiaeth helaeth o raglenni ar gyfer cynulleidfa prif ffrwd;
- (b) BBC Two: sianel genres cymysg, â fersiynau ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, sy'n darparu amrywiaeth helaeth o raglenni ar gyfer cynulleidfa prif ffrwd, ond sy'n canolbwyntio'n benodol ar raglenni ffeithiol, drama a chomedi arloesol;
- (c) BBC Four: sianel sy'n darparu cynnwys deallusol a diwylliannol amgen, sy'n wahanol i raglenni prif ffrwd ar sianeli eraill y BBC;
- (d) CBeebies: sianel sy'n darparu rhaglenni i addysgu a difyrru plant ifanc iawn;
- (e) CBBC: sianel ag amserlen gymysg ar gyfer plant o dan 13 oed;
- (f) BBC News: sianel newyddion dreigl sy'n darparu newyddion, dadansoddiadau a rhaglenni rhyngwladol eraill;
- (g) BBC Parliament: sianel sydd â darpariaeth fyw helaeth o ddadleuon a phwyllgorau Seneddau a Chynulliadau'r Deyrnas Unedig, a darpariaeth wleidyddol arall; a
- (h) BBC Red Button: cynnwys digidol rhyngweithiol sy'n cynnwys newyddion a gwybodaeth arall. Mae'n sefyll ar ei draed ei hun ac yn cefnogi gwasanaethau llinol eraill, yn ogystal â rhoi mynediad i gynnwys y BBC nad yw'n llinol, a modd o chwilio drwyddo.

(2) Gwasanaethau radio wedi'u llunio ar gyfer cynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig:

- (a) Radio 1: gwasanaeth cerddoriaeth boblogaidd yn bennaf, sydd wedi'i anelu at gynulleidfaoedd ifanc. Mae wedi ymrwymo i gynnwys y gerddoriaeth newydd orau, yn ogystal ag allbwn llafar sylweddol;
- (b) 1Xtra: gwasanaeth cerddoriaeth gyfoes gan artistiaid du, sy'n canolbwyntio ar gerddoriaeth newydd a cherddoriaeth fyw, ynghyd â darparu allbwn llafar sylweddol ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc;

⁴⁹ Paragraff 1(2) a pharagraff 2 o Ran 1, Atodlen 1 i'r Cytundeb.

- (c) Radio 2: gwasanaeth sy'n darparu amrywiaeth helaeth o gerddoriaeth boblogaidd ac arbenigol yn ogystal ag allbwn llafar gan gynnwys newyddion, materion cyfoes a rhaglenni ffeithiol;
 - (d) Radio 3: gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar gerddoriaeth glasurol, yn ogystal â cherddoriaeth a chelfyddyd eraill ac allbwn llafar, gyda ffocws penodol ar gerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig;
 - (e) Radio 4: gwasanaeth llafar sy'n cynnwys newyddion, materion cyfoes, rhaglenni ffeithiol, drama, darlleniadau a chomedi;
 - (f) BBC 4 Extra: gwasanaeth llafar sy'n darparu comedi, drama a darlleniadau, o archif y BBC yn bennaf;
 - (g) BBC Radio 5 live: darpariaeth newyddion a chwaraeon 24 awr;
 - (h) BBC Radio 5 live sports extra: estyniad rhan-amser i BBC Radio 5 live sy'n rhoi sylw byw ychwanegol i ddigwyddiadau chwaraeon;
 - (i) BBC 6 Music: gwasanaeth cerddoriaeth boblogaidd y tu allan i'r brif ffrwd bresennol, ynghyd ag allbwn llafar sy'n darparu cyd-destun ar gyfer y gerddoriaeth honno; a
 - (j) BBC Asian Network: gwasanaeth sy'n darparu amrywiaeth helaeth o newyddion, cerddoriaeth a rhaglenni ffeithiol ar gyfer cynulleidfaoedd Asiaidd yn y DU.
- (3) Gwasanaethau teledu a radio ar gyfer cynulleidfaoedd mewn rhannau penodol o'r Deyrnas Unedig:
- (a) BBC Radio Scotland: gwasanaeth radio sydd ar gael ledled yr Alban, a chanddo amserlen gymysg o allbwn llafar a cherddoriaeth;
 - (b) BBC Radio nan Gàidheal: gwasanaeth radio yn yr Alban sy'n cynnwys rhaglenni Gaeleg;
 - (c) BBC Radio Wales: gwasanaeth radio sydd ar gael ledled Cymru, a chanddo amserlen gymysg o allbwn llafar a cherddoriaeth;
 - (d) BBC Radio Cymru: gwasanaeth radio ledled Cymru sy'n cynnwys rhaglenni Cymraeg;
 - (e) BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle: gwasanaeth radio a chanddo amserlen gymysg o allbwn llafar a cherddoriaeth, sydd ar gael ar BBC Radio Ulster ledled Gogledd Iwerddon, ac eithrio'r adegau penodol pan mae BBC Radio Foyle yn cael ei ddarparu yn ardaloedd gorllewinol Gogledd Iwerddon;
 - (f) BBC Local Radio: nifer o wasanaethau radio lleol ar gyfer cynulleidfaoedd mewn gwahanol rannau o Loegr ac Ynysoedd y Sianel, sy'n darparu cymysgedd o allbwn llafar a cherddoriaeth; a
 - (g) BBC Alba: sianel deledu genres cymysg ar gyfer siaradwyr Gaeleg a'r rheini sydd â diddordeb mewn iaith a diwylliant Gaeleg, a ddarperir gan y BBC mewn partneriaeth ag MG Alba.
 - (h) BBC Scotland: sianel deledu genre cymysg sy'n apelio i ac yn adlewyrchu amrywiaeth yr Alban.

- (4) Gwasanaethau ar-lein wedi'u llunio ar gyfer defnyddwyr ledled y Deyrnas Unedig, BBC
Ar-lein: gwasanaeth cynnwys ar-lein cynhwysfawr, sy'n gwasanaethu holl Ddibenion
Cyhoeddus y BBC, gan gynnwys gwefannau newyddion a chwaraeon y BBC, BBC iPlayer a
BBC Three ar gyfer oedolion iau.